

Rhwydwaith Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Gogledd Cymru



Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2016-2020: Dogfen Ymchwil a Chefndir



Bwrdd Iechyd Prifysgol
Betsi Cadwaladr
University Health Board



Cwmni Adsefydlu Cymunedol
Cymru
Wales
Community Rehabilitation Company



Cynnwys

Thema Allweddol

Thema Allweddol 1.1: Cynyddu nifer y bobl mewn grwpiau a dangynrychiolir sy'n dewis ffyrdd iach o fyw.....	8
Gwybodaeth o'r Broses ymgysylltu:	8
Ein Hymchwil:	8
Blaenoriaethau a Awgrymir	9
Thema Allweddol 1.2: Cynyddu nifer y bobl mewn grwpiau a dangynrychiolir sy'n defnyddio gwasanaethau gofal iechyd.	11
Gwybodaeth o'r Broses ymgysylltu:	11
Ein Hymchwil:	11
Blaenoriaethau Awgrymedig	12
Thema Allweddol 1.3: Gofal ar gyfer pawb yn cael ei wella, yn enwedig pobl hŷn, pobl sy'n agored i niwed, pobl drawsrywiol, lesbiaid, pobl hoyw a deurywiol.	13
Gwybodaeth o'r Broses ymgysylltu:	13
Ein Hymchwil:	13
Blaenoriaethau Awgrymedig	17
Thema Allweddol 1.4: Cynyddu nifer y Sipsiwn a Theithwyr sy'n manteisio ar wasanaethau gofal iechyd ataliol.....	18
Gwybodaeth o'r Broses ymgysylltu:	18
Ein Hymchwil:	18
Blaenoriaethau Awgrymedig	20
Thema Allweddol 1.5: Rhoi gwell sylw i hawliau a dyheadau pobl sydd â phroblemau iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu.	21
Gwybodaeth o'r Broses ymgysylltu:	21
Ein Hymchwil:	21
Blaenoriaethau Awgrymedig	23
Thema Allweddol 1.6: Gweithio mewn partneriaeth gyda chyrrff cyhoeddus eraill yng Ngogledd Cymru i wneud y mwyaf o'n hymdrechion ar y cyd i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd lle bynnag y bo'n bosibl.	24
Gwybodaeth o'r Broses ymgysylltu:	24
Ein Hymchwil:	24
Blaenoriaethau Awgrymedig	25

Thema Allweddol 1.7: Cynyddu nifer y bobl hŷn sy'n agored i niwed a phlant sy'n cael eu himwneiddio mewn ardaloedd difreintiedig.....	26
Gwybodaeth o'r Broses ymgysylltu:	26
Ein Hymchwil:	26
Blaenoriaethau Awgrymedig:	26
Amcan 2: Mynd i'r afael â chanlyniadau anghyfartal mewn Addysg i wneud y gorau o botensial yr unigolyn	27
Thema Allweddol 2.1: Lleihau'r bwllch o ran cyrhaeddiad addysgol gwahanol grwpiau.....	28
Gwybodaeth o'r Broses ymgysylltu:	28
Ein Hymchwil:	28
Blaenoriaethau Awgrymedig:	29
Thema Allweddol 2.2: Lleihau bwllio oherwydd hunaniaeth mewn Addysg.....	30
Gwybodaeth o'r Broses ymgysylltu:	30
Ein Hymchwil:	30
Blaenoriaethau Awgrymedig	31
Thema Allweddol 2.3: Rhoi cymorth i bobl ifanc wrth drosglwyddo rhwng Addysg a Chyflogaeth.....	32
Gwybodaeth o'r Broses ymgysylltu:	32
Ein Hymchwil:	32
Blaenoriaethau Awgrymedig:	33
Thema Allweddol 3.1: Canfod a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau yn y prosesau recriwtio, cadw, hyfforddi a dyrchafu.....	35
Gwybodaeth o'r Broses ymgysylltu:	35
Ein Hymchwil:	35
Blaenoriaethau a Awgrymir	36
Thema Allweddol 3.2: Canfod a mynd i'r afael ag unrhyw fylchau rhwng cyflogau pobl sydd â gwahanol nodweddion gwarchoddedig.	38
Gwybodaeth o'r Broses ymgysylltu:	38
Ein Hymchwil:	38
Blaenoriaethau Awgrymedig	39
Thema Allweddol 4.1: Cynyddu cyfraddau adrodd am droseddau casineb ac aflonyddu a chymryd camau i leihau troseddau casineb ac aflonyddu gan gynnwys cam-drin a bwllio arlein.	42

Gwybodaeth o'r Broses ymgysylltu:.....	42
Ein Hymchwil:	42
Blaenoriaethau Awgrymedig	43
Gwybodaeth o'r Broses ymgysylltu:.....	44
Ein Hymchwil:	44
Blaenoriaethau Awgrymedig	45
Thema Allweddol 4.3: Cynyddu ymwybyddiaeth mewn cymunedau sy'n agored i niwed am dwyll dros y ffôn ar arlein.	46
Gwybodaeth o'r Broses ymgysylltu:.....	46
Ein Hymchwil:	46
Blaenoriaethau Awgrymedig:	48
Thema Allweddol 5.1: Cyrff sy'n gwneud penderfyniadau yn dod yn fwy cynrychioliadol o'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu.....	50
Gwybodaeth o'r Broses ymgysylltu:.....	50
Ein Hymchwil:	50
Blaenoriaethau a Awgrymir:.....	52
Thema Allweddol 5.2: Ymgynghoriad ac ymgysylltiad yn gwella trwy gryfhau cysylltiadau rhwng y Sector Cyhoeddus a grwpiau lleol a chenedlaethol sy'n cynrychioli pobl o bob grŵp gwarchoddedig.	53
Gwybodaeth o'r Broses ymgysylltu:.....	53
Ein Hymchwil:	53
Blaenoriaethau Awgrymedig	53
Thema Allweddol 6.1: Gwella mynediad at wybodaeth a chyfathrebu a phrofiad y cwsmer, yn enwedig i bobl sydd wedi colli defnydd o'u synhwyrau a'r rheini nad yw'r Gymraeg na'r Saesneg yn iaith gyntaf iddynt.....	55
Gwybodaeth o'r Broses ymgysylltu:.....	55
Ein Hymchwil:	55
Blaenoriaethau Awgrymedig	56
Thema Allweddol 6.2: Gwella mynediad corfforol at wasanaethau, cludiant, yr amgylchedd adeiledig a mannau agored.	57
Gwybodaeth o'r Broses ymgysylltu:.....	57
Ein Hymchwil:	57
Blaenoriaethau a Awgrymir:.....	58

Amcan 1: Lleihau anghydraddoldebau iechyd

Thema Allweddol 1.1: Cynyddu nifer y bobl mewn grwpiau a dangynrychiolir sy'n dewis ffyrdd iach o fyw.	8
Thema Allweddol 1.2: Cynyddu nifer y bobl sydd mewn grwpiau a dangynrychiolir sy'n defnyddio gwasanaethau gofal iechyd.	11
Thema Allweddol 1.3: Gwella urddas a pharch ym maes gofal i bawb, yn enwedig pobl hŷn, pobl sy'n agored i niwed, pobl drawsrywiol, lesbiaid, pobl hoyw a deurywiol.	13
Thema Allweddol 1.4: Cynyddu nifer y Sipsiwn a Theithwyr sy'n manteisio ar wasanaethau gofal iechyd ataliol.	18
Thema Allweddol 1.5: Rhoi gwell sylw i hawliau a dyheadau pobl sydd â phroblemau iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu.	21
Thema Allweddol 1.6: Gweithio mewn partneriaeth gyda chyrrff cyhoeddus eraill yng Ngogledd Cymru i wneud y mwyaf o'n hymdrechion ar y cyd i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd lle bynnag y bo'n bosibl.	24
Thema Allweddol 1.7: Cynyddu nifer y bobl hŷn sy'n agored i niwed a phlant sy'n cael eu himwneiddio mewn cymunedau difreintiedig.	26

Thema Allweddol 1.1: Cynyddu nifer y bobl mewn grwpiau a dangynrychiolir sy'n dewis ffyrdd iach o fyw.

Gwybodaeth o'r Broses ymgysylltu:

Yn ystod cyfnod ymgynghori yr Amcanion Cydraddoldeb Strategol, daeth i'r amlwg y dylid cynnwys pawb yn y cam gweithredu i wella ffyrdd iach o fyw. Fe wnaeth y cyfranogwyr drafod pwysigrwydd codi ymwybyddiaeth o ran dewis ffyrdd iach o fyw fel cam cadarnhaol ymlaen i gael mwy o bobl o blith grwpiau a dangynrychiolir i ddewis ffyrdd iach o fyw.

Ein Hymchwil:

Mae Adroddiad Blynyddol Iechyd Cyhoeddus 2015: Gogledd Cymru Iachach, Hapusach a Thecach (2), trwy'r cysylltiad

<http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/888/North%20Wales%20DPH%20Annual%20Report%202015%20WELSH1.pdf>, yn nodi'r cyd-destun ar gyfer gwaith Bwrdd Iechyd Prifysgol



Betsi Cadwaladr a'i bartneriaid mewn perthynas â'r nod o wella iechyd a lleihau anghydraddoldebau iechyd. Mae'r adroddiad yn nodi ac yn argymhell y prif flaenoriaethau iechyd i boblogaeth Gogledd Cymru, yn esbonio pam y maent yn bwysig, ac yn gwneud argymhellion ar sail tystiolaeth. Y blaenoriaethau a nodir yw:

- Lleihau anghyfartaledd iechyd drwy sicrhau'r cychwyn gorau i fywydau
- Afiechyd y Galon, Canser ac Afiechydon Anadlu
- Ysmygu
- Gordewdra
- Alcohol
- Brechiadau ac Imwneiddio
- Iechyd meddwl
- Pobl Hŷn sy'n agored i niwed


Dengys y ffigurau ar gyfer Cymru gyfan o Arolwg Iechyd Cymru 2014 fod dynion (22%) yn parhau i fod yn fwy tebygol o fod yn ysmygwyr na merched (19%), yn enwedig yn y grwpiau oedran 25-44.

Mae'r gwahaniaeth rhwng patrymau ysmegu y ddau ryw yn hollol groes ymhlith plant a phobl ifanc ac mae un mewn 6 o genethod 15-16 oed yn ysmegu o'u cymharu ag 1 mewn 9 o fechgyn. Mae cyfraddau ysmegu yn uwch yn ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru, mae mwy na 40% o bobl nad ydynt

erioed wedi gweithio neu sydd yn ddiwaith yn ysmegu ar hyn o bryd, ac ni cheir dim arwydd fod y ffigur hwn yn lleihau. Mae dynion yn fwy tebygol o fod dros eu pwysau neu'n ordew (61% o



ddynion, 54% o fenywod) ac o yfed alcohol uwchlaw'r canllawiau dyddiol a argymhellir (dynion 46%, merched 35%), ond mae merched (23%) yn llai tebygol o gymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol yn unol â'r hyn a argymhellir o'u cymharu â dynion (38%).¹



O ddadansoddi data'r arolwg ar gyfer Gogledd Cymru (Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr) gwelir mai dyma'r sefyllfa hefyd yng Ngogledd Cymru.

Awgryma'r ymchwil fod cynnyrch tybaco yn parhau i gael ei ddefnyddio yn fwy aml ymhlith grwpiau lleiafrifoedd ethnig na'r boblogaeth yn gyffredinol. Cofnodwyd y lefelau uchaf o iechyd cyffredinol gwael neu wael iawn ymhlith y grŵp ethnig lluosog cymysg, ond nid oedd llawer o wahaniaeth rhwng y grwpiau unigol. Dengys yr ymchwil hefyd fod iechyd grwpiau lleiafrifol yn y Deyrnas Unedig yn tueddu i fod yn waeth nag ymhlith y boblogaeth groenwyn. Un o brif ganfyddiadau'r gwaith ymchwil o safbwynt grwpiau a dangynrychiolir yw bod eu hiechyd yn waeth a'u disgwyliad oes yn llawer byrrach na'r boblogaeth yn gyffredinol. Mae lefelau iechyd corfforol pobl hŷn yn wael yn gyffredinol o'u cymharu â'r boblogaeth iau.

Roedd lefelau ysmegu yn uchel ymysg rhai grwpiau, yn enwedig dynion Pacistanaid. Awgryma tystiolaeth gan Wasanaeth Rhoi'r Gorau i Ysmegu Cymru Gyfan mai 2% yn unig o'i gleientiaid sydd o grwpiau lleiafrifoedd ethnig. Mae iechyd grwpiau lleiafrifoedd ethnig y Deyrnas Unedig yn tueddu i fod yn waeth na'r boblogaeth groenwyn.

Felly mae mynd i'r afael ag anghyfartaledd yn bwysig er mwyn cau'r bwlch hwn ym maes iechyd.

Blaenoriaethau a Awgrymir

Er bod rhywfaint o dystiolaeth yn dangos fod y bwlch rhwng y ddau ryw yn lleihau o ran gordewdra a'r defnydd o alcohol, ymddengys fod y blaenoriaethau hirdymor a ddewiswyd yn 2012 yn parhau'n berthnasol:

- Bod y bwlch rhwng y ganran o Ddynion a Merched a ddywedodd eu bod yn ysmegu ar hyn o bryd yn lleihau
- Bod y bwlch rhwng y ganran o Ddynion a Merched a ddywedodd eu bod wedi gwneud gweithgaredd corfforol sy'n cwrdd â'r canllawiau yn yr wythnos ddiwethaf yn lleihau
- Bod y bwlch rhwng y ganran o Ddynion a Merched sydd dros eu pwysau neu'n ordew yn lleihau

¹ Llywodraeth Cymru, Arolwg Iechyd Cymru 2014

² Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus 2015
Gogledd Cymru Iachach, Hapusach a Thecach

- Bod y bwlch rhwng y ganran o Ddynion a Merched sy'n yfed mwy o alcohol bob dydd na'r canllawiau a argymhellir yn lleihau
- Bod partneriaid yn hybu dewisiadau ar gyfer ffyrdd iach o fyw ymhlith grwpiau targed gwarchodedig eraill lle bo'r rheini wedi'u nodi'n flaenoriaeth.

Thema Allweddol 1.2: Cynyddu nifer y bobl mewn grwpiau a dangynrychiolir sy'n defnyddio gwasanaethau gofal iechyd.

Gwybodaeth o'r Broses ymgysylltu:

Datgelodd yr wybodaeth a roddwyd gan gyfranogwyr yn ystod y broses ymgysylltu fod angen i bob grŵp gael mynediad at wasanaethau gofal iechyd. Awgrymwyd y byddai'n fuddiol cyflwyno canolfannau galw heibio mewn meddygfeydd ar gyfer y rheini nad oes ganddynt gyfeiriad cartref e.e. pobl ddigartref a Sipsiwn-Teithwyr, er mwyn iddynt gael mynediad at gyngor meddygol. Bydd hyn hefyd o gymorth i leihau'r pwysau ar adrannau Damweiniau ac Argyfwng. Tynnwyd sylw at bwysigrwydd a'r angen i sefydliadau ac asiantaethau weithio mewn partneriaeth, er mwyn hwyluso'r broses o sicrhau y gall pawb gael mynediad at ofal iechyd.

Cyfeiriwyd hefyd at ddiffyg o ran y gwasanaethau cynghori sydd ar gael i grwpiau lleiafrifoedd ethnig yn eu mamiaith, yn enwedig ymhlith pobl hŷn. Yn ystod y cyfnod pan ddatblygwyd y set diwethaf o gynlluniau roedd yr adborth wedi cynnwys trafodaeth am grwpiau a oedd yn ei chael yn anodd i gael mynediad at wasanaethau gofal iechyd a chafwyd awgrymiadau ar sut i wella hyn. Y teimlad oedd fod angen i staff rheng-flaen gael gwell dealltwriaeth o anghenion defnyddwyr gwasanaeth sy'n Lesbiaid, Pobl Hoyw, Ddeurywiol (LHD) a Thrawsrywiol a phobl â phroblemau iechyd meddwl. Wrth ddatblygu'r set newydd o gynlluniau, nodwyd fod y materion hyn yn berthnasol o hyd i'r grwpiau hyn. Mae angen mwy o waith i godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth am faterion sy'n ymwneud ag iechyd meddwl ymhlith staff, gan gynnwys y staff hynny nad ydynt yn gysylltiedig yn uniongyrchol â gwasanaethau iechyd meddwl.

Mae dros 20% o boblogaeth Cymru wedi colli defnydd synhwyrau i ryw raddau neu'i gilydd, a thynnwyd sylw at ganlyniadau andwyol hyn ar iechyd a lles yr unigolyn. Dylai codi ymwybyddiaeth am bwysigrwydd cydraddoldeb a hawliau dynol er mwyn sicrhau y darperir gwasanaeth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn drwy gyflwyno gwelliannau a gynlluniwyd i ateb anghenion cyfathrebu'r unigolyn fod yn flaenoriaeth i'r sector cyhoeddus. Amlygwyd yr angen i gynyddu nifer y deonglwyr cofrestredig er mwyn galluogi defnyddwyr BSL (Iaith Arwyddion Prydain) a grwpiau lleiafrifoedd ethnig i gyfathrebu, yn enwedig mewn perthynas â chael mynediad at wasanaethau gofal iechyd yn fwy effeithlon.


Ein Hymchwil:

Mae adroddiad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol "A yw Cymru'n Decach?" yn cynnwys her sy'n seiliedig ar dystiolaeth sy'n nodi angen i "Wella Mynediad at Ofal i Bobl Hŷn a Phlant".

Dengys ffigyrau ar gyfer Cymru o Arolwg Iechyd Cymru fod dynion yn parhau i fod yn llai tebygol na merched i ddefnyddio amrywiaeth o wasanaethau iechyd ac ychydig iawn o newid a fu yn y bwlch rhwng dynion a merched ym mhob categori. Fodd bynnag, dywedodd 17% o ddynion a merched eu bod wedi mynd i adrannau damweiniau. Mae hyn yn ostyngiad o 3% yn y bwlch a nodwyd yn 2008.

Mae Arolwg Cleifion Meddygon Teulu 2011-2012 yn nodi fod pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig (BME) yn fwy tebygol o fod erioed wedi gweld eu meddyg teulu na phobl groenwyn. Ar y llaw arall, roedd dynion duon a lleiafrifoedd ethnig yn fwy tebygol na dynion croenwyn o fod wedi defnyddio gwasanaeth y tu allan i oriau yn ystod y 6 mis diwethaf.

Yn ôl yr 'Arolwg o'r dystiolaeth ar anghydraddoleb o ran Mynediad at Wasanaethau Iechyd yng Nghymru 2014' mae grwpiau lleiafrifoedd ethnig yn parhau i wynebu rhwystrau, megis: gall rhyw y meddyg teulu fod yn rhwystr i sipsiwn neu deithwyr; gall rhwystrau iaith ymhlith rhai grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig amharu ar eu dealltwriaeth o'r cyngor iechyd a roddir; dywed pobl LHD a phobl LDH anabl eu bod yn ofni rhagfarn neu gamdriniaeth.



Hefyd, ceir tystiolaeth sy'n awgrymu fod grwpiau eraill sy'n agored i niwed, megis pobl ddi-gartref, pobl sy'n ffoi rhag cam-drin yn y cartref neu rieni sengl yn ei chael yn fwy anodd i gael mynediad at wasanaethau iechyd oherwydd diffyg cludiant, cost cyrraedd gwasanaethau neu anhawster i ddod o hyd i ofal plant.

Blaenoriaethau Awgrymedig

Er bod rhywfaint o dystiolaeth yn dangos fod llai o fwllch bellach rhwng y ganran o ddynion a merched sy'n mynd i unedau damweiniau ac argyfwng, ymddengys fod y blaenoriaethau hirdymor a ddewiswyd yn 2012 yn berthnasol o hyd:

- Y bwlch rhwng y ganran o Ddynion a Merched a ddywedodd eu bod wedi siarad gyda meddyg teulu yn lleihau
- Y bwlch rhwng y ganran o Ddynion a Merched a ddywedodd eu bod wedi ymgynghori â fferyllydd yn lleihau
- Y bwlch rhwng y ganran o Ddynion a Merched a ddywedodd eu bod wedi ymweld â deintydd yn lleihau
- Y bwlch rhwng y ganran o Ddynion a Merched a ddywedodd eu bod wedi ymweld ag optegydd yn lleihau
- Partneriaid yn hybu mynediad at wasanaethau iechyd ymhlith grwpiau targed gwarchoddedig eraill lle bo'r rhain wedi'u nodi'n flaenoriaeth,
- Partneriaid yn hybu darpariaeth gwasanaeth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a phwysigrwydd ateb anghenion cyfathrebu unigol

Thema Allweddol 1.3: Gofal ar gyfer pawb yn cael ei wella, yn enwedig pobl hŷn, pobl sy'n agored i niwed, pobl drawsrywiol, lesbiaid, pobl hoyw a deurywiol.

Gwybodaeth o'r Broses ymgysylltu:

Ym marn y cyfranogwyr, pobl hŷn oedd un o'r prif grwpiau sy'n dioddef anghydraddoldebau ym maes iechyd, fodd bynnag nid dyma'r unig grŵp sy'n dioddef. Mynegodd y cyfranogwyr eu pryder y dylid sicrhau bod pob unigolyn yn cael ei drin ag urddas a pharch a heb ragfarn yn erbyn unrhyw nodwedd warchoddedig. Awgrymwyd felly y dylid ehangu'r Maes Gweithredu hwn i gynnwys pawb.

Dyweddodd y cyfranogwyr mai pobl hŷn oedd un o'r prif grwpiau sy'n dioddef anghydraddoldebau ym maes iechyd. Nodwyd bod diffyg cyfleusterau asesu lleol i henoed eiddil eu meddwl (EMI) yn creu anawsterau i gleifion a mynegwyd pryderon mewn perthynas â diffyg urddas a pharch i bobl hŷn. Codwyd pryderon ynghylch sgriniau cyffwrdd digidol yn nerbynfeydd meddygfeydd sy'n gallu achosi problemau i gleifion â nam ar eu golwg.

Awgrymodd yr adborth o'r broses ymgysylltu fod angen i wasanaethau fabwysiadu dull gweithredu sy'n seiliedig ar yr unigolyn ac ar Hawliau Dynol wrth asesu anghenion unigolyn. Awgrymwyd hefyd y dylid rhannu nodiadau meddygol a gwasanaethau cymdeithasol ymhlith gweithwyr proffesiynol er mwyn dangos parch at yr unigolyn. Fe wnaeth cyfranogwyr y digwyddiad ymgysylltu hefyd dynnu sylw at bwysigrwydd defnyddio dewis enw pobl drawsrywiol wrth sgwrsio gyda hwy pan fyddant yn derbyn gofal, yn hytrach na'u henwau genedigol, er mwyn iddynt deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ac yn rhan o'r gymdeithas.

Ein Hymchwil:

Mae adroddiad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol "A yw Cymru'n Decach?" yn cynnwys her sy'n seiliedig ar dystiolaeth sy'n nodi angen i "Atal cam-drin, esgeulustod a chamdriniaeth o blant a phobl hŷn mewn ysbytai a chartrefi gofal" a "Diogelu hawliau dynol pobl yn y ddalfa".

Pobl Hŷn

Er nad yw'r data meintiol wedi'u datblygu dda ar hyn o bryd, mae cyfres o astudiaethau meintiol wedi amlygu pryderon ynglŷn â'r ffordd y caiff pobl hŷn sy'n derbyn gofal eu trin. Fel dilyniant i'r adroddiad cyntaf a gyhoeddwyd yn 2013 'Gofal gydag Urddas? Profiadau pobl hŷn mewn ysbytai yng Nghymru', mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru wedi llunio adroddiad dilynol 'Gofal gydag Urddas: Dwy Flynedd yn Ddiweddarach'. Mae'r adroddiad hwn yn ystyried y cynnydd a wnaed yn erbyn y deuddeg maes a nodwyd yn yr adolygiad cyntaf. Mae urddas a pharch yn flaenoriaeth Haen 1 yn ei fframwaith cyflenwi a rheoli perfformiad ar gyfer y GIG. Y prif ganfyddiadau oedd fod gofal dementia wedi ei nodi'n flaenoriaeth strategol gan Lywodraeth Cymru, fodd bynnag, mae cyflymder y newid a'r gwelliannau mewn gwasanaethau dementia yn araf o hyd. Mae pobl hŷn yn parhau i weld bod diffyg ymwybyddiaeth am ddementia a bod angen mwy o hyfforddiant a sgiliau ar staff i ddeall a rheoli dementia a'r ymddygiad heriol a all ddod yn ei sgil. Penodwyd

hyrwyddwyr gofal dementia yn y rhan fwyaf o ysbytai, fodd bynnag mae'r adolygiad yn nodi fod pobl hŷn yn ei chael yn anodd i gael mynediad at y gwasanaethau dementia arbenigol sydd eu hangen arnynt.

Yn 2014, fe wnaeth Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru adolygu a llunio adroddiad 'Lle i'w Alw'n Gartref? Adolygiad o Ansawdd Bywyd a Gofal Pobl Hŷn sy'n Byw mewn Cartrefi Gofal Preswyl yng Nghymru'. Yr adolygiad hwn oedd yr ymchwiliad mwyaf o'i fath i fywydau ac ansawdd bywyd a gofal pobl hŷn mewn cartrefi gofal. Mae'r adolygiad yn cydnabod y newidiadau sydd eu hangen yng Nghymru er mwyn sicrhau ein bod yn cyflenwi'r hyn a allwn ac roedd yn cynnwys argymhellion ar gyfer Awdurdodau Lleol. Rhannwyd prif ganfyddiadau'r adolygiad yn bedwar maes allweddol yn cynnwys Bywyd bob Dydd, Iechyd a Lles, Pobl ac Arweinyddiaeth, Comisiynu, Archwilio a Rheoleiddio.

Un o'r prif bryderon a nodwyd yn yr adroddiad cyntaf oedd diffygion o ran rheoli ymataliaeth ac mewn ymateb i hyn datblygodd a lansiodd y GIG Fwndel Ymataliaeth Cymru Gyfan yn 2013, gan roi canllawiau i nyrsys er mwyn gwella profiad y claf a sicrhau gofal ag urddas.

Nid yw pobl bob amser yn gofyn i gleifion sut y byddent yn dymuno i bobl gyfeirio atynt neu beth yw eu dewis iaith; mae'r rheini sydd wedi colli defnydd o'u synhwyrau yn parhau i wynebu problemau wrth gyfathrebu eu hanghenion mewn rhai meysydd.

Yn 2014, nododd adroddiad gan Age UK, 'Healthy Ageing Evidence Review'²

"Dros y ddeng mlynedd ddiwethaf mae polisiâu'r llywodraeth wedi cynnwys ymrwymadau niferus i gyrraedd y nod o heneiddio'n dda. Fodd bynnag, mae'r bwlch rhwng dyheadau'r polisiâu a'u rhoi ar waith yn ymarferol wedi parhau, a gellid ystyried fod y bwlch wedi mynd yn fwy yn ystod y cyfnod hwn".

Cyfeiriwyd at faterion allweddol yn ymwneud ag anghenion iechyd a gofal cymdeithasol y boblogaeth hŷn yng Nghymru mewn sawl papur ymchwil.³

Unigrwydd ac Unigedd

- mae 1 mewn 3 o bobl dros 65 oed yn byw ar eu pen eu hunain ar hyn o bryd; mae ymron i 1 mewn 2 o bobl dros 85 oed yn byw ar eu pen eu hunain
- mae 43% o bobl dros 75 oed yn byw ar eu pen eu hunain yng Nghymru
- yn ôl arolwg gan Age Cymru, dywedodd 68% o fenywod eu bod yn pryderu am unigrwydd mewn perthynas â heneiddio
- yn ôl arolwg gan y WRVS roedd ymron i dri-chwarter y bobl dros 75 oed a oedd yn byw ar eu pen eu hunain ac a gafodd eu holi yn teimlo'n unig

² Age UK, 'Healthy Ageing – Evidence Review'. (2014)


³ Materion a nodwyd mewn arddangosfeydd ar gyfer y WRVS, 'Ageing across Europe' (2012) a Llywodraeth Cymru, Arolwg Cenedlaethol Cymru. Prif Ganlyniadau. Ystadegau Cenedlaethol a gyhoeddwyd gyntaf (2013)

- canfu gwaith ymchwil a gynhaliwyd gan y WRVS (2012) ymhlith pobl dros 75 oed sy'n byw ar eu pen eu hunain mai dynion hŷn yng Nghymru oedd y grŵp mwyaf unig ar draws y Deyrnas Unedig
- datgelodd adroddiad gan y WRVS (2012) mai pobl hŷn sy'n byw yn y Deyrnas Unedig yw'r rhai mwyaf unig o blith holl wledydd cymharol Ewrop.
- dangosodd pŵl piniwn gan TNS ar gyfer Age UK yn 2013 fod chwarterer pobl hŷn y Deyrnas Unedig (65+) yn teimlo'n unig weithiau o leiaf

Canfyddiad pobl hŷn o Ofal Iechyd Sylfaenol ac Eilaidd

- dywedodd 96% o bobl a oedd wedi gweld meddyg teulu neu wedi cael apwyntiad yn yr ysbyty iddynt gael eu trin ag urddas a pharch
- o blith y rheini a oedd wedi trefnu apwyntiad eu hunain ac wedi gweld eu meddyg teulu yn ystod y 12 mis diwethaf, roedd 33% wedi cael anhawster i drefnu apwyntiad cyfleus
- roedd 92% o bobl yn fodlon â'r gofal yr oeddynt wedi'i dderbyn gan eu meddyg teulu yn ystod eu hymweliad diwethaf.
- roedd pobl dros 75 oed yn fwy bodlon â'r gofal yr oeddynt wedi'i dderbyn gan eu meddyg teulu (96%) nag oedolion ifanc rhwng 16 a 24 oed (89%)
- roedd 90% o bobl yn fodlon â'r gofal yr oeddynt wedi'i dderbyn yn eu hapwyntiad diwethaf mewn ysbyty GIG. Fel yn achos gofal gan feddygon teulu, roedd pobl hŷn yn tueddu i fod yn fwy bodlon â'r gofal yr oeddynt wedi'i dderbyn yn yr ysbyty: roedd 96% o bobl dros 75 oed yn fodlon â'r gofal yr oeddynt wedi'i dderbyn, o'i gymharu ag 85% o bobl rhwng 16 a 24 oed.

Mynegwyd pryder ers rhai blynyddoedd am yr oedi mawr wrth drosglwyddo cleifion o ofal ysbytai yn ôl i'w cartrefi. Mae pobl hŷn yn aml yn dymuno bod yn eu cartrefi eu hunain ac



awgryma nifer o astudiaethau mai'r ffordd orau o sicrhau eu hannibyniaeth yw cynnig gwasanaethau ailalluogi cyn gynted â phosibl ar ôl digwyddiad difrifol. Bu lleihad dramatig yn nifer y bobl ar draws Gogledd Cymru a wynebodd oedi wrth drosglwyddo ar ôl 2010-11 ac er bod y niferoedd wedi codi yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae'r lefelau yn parhau yn llawer is nag yr oeddynt. Eto i

gyd, gall hyn gael effaith fawr ar yr unigolion rheini sy'n wynebu oedi wrth drosglwyddo. Ar draws Cymru, canolrif yr oedi oedd 26 diwrnod (23 diwrnod yn achos cleifion ar wardiau aciwt a 41 diwrnod yn achos cleifion mewn unedau iechyd meddwl).

Lesbiaid, Pobl Hoyw, Ddeurywiol (LHD) a Thrawsrywiol

Mae'r 'Adolygiad o'r dystiolaeth ar anghydraddoleb wrth gael mynediad at wasanaethau iechyd yng Nghymru 2014' yn nodi fod 65% o bobl drawsrywiol wedi cael 'profiadau negyddol' ym maes gwasanaethau iechyd cyffredinol. Dim ond chwarter o bobl LHD a ddywedodd eu bod wedi derbyn cyngor a oedd yn berthnasol i'w hunaniaeth rywiol.


Mae pobl LHD hŷn yn fwy tebyg o ddweud y bydd arnynt angen dibynnu ar wasanaethau gofal pan fyddant yn hŷn, ond dywed rhai eu bod yn ofni rhagfarn gan ofalwyr ac y gallai datgelu eu hunaniaeth rywiol gael effaith andwyol ar eu gofal. Dywedodd pobl LHD anabl hefyd eu bod yn pryderu am ragfarn a chamdriniaeth gan staff gofal.

Nodwyd fod canfyddiad ymhlith pobl LHD nad oedd llawer o wybodaeth weledol am iechyd rhyw LHD. Dywed pobl LHD fod gweithwyr iechyd weithiau yn gwneud rhagdybiaethau amhriodol am eu hanghenion iechyd rhyw ac nad yw pob gweithiwr iechyd proffesiynol yn deall yn llawn risgau iechyd rhyw LHD.

Mae pobl LHD a thrawsrywiol sydd â phroblemau iechyd meddwl yn fwy tebygol o ddweud eu bod wedi teimlo'n anghyfforddus wrth ddefnyddio gwasanaethau prif ffrwd a dywed y mwyafrif iddynt gael profiadau negyddol yn y lleoliadau hyn. Dywed ymron i draean o'r bobl drawsrywiol sydd wedi defnyddio gwasanaethau iechyd meddwl na roddwyd ystyriaeth ddilys i'w hunaniaeth rywiol ac fe'i hystyriwyd, yn hytrach, yn symptom o afiechyd meddwl.

Yn ôl gwaith ymchwil gan Stonewall yn 2012, roedd pobl LHD yn parhau i deimlo'n ansicr ynglŷn â'r ffordd y byddent yn cael eu trin ar draws rhannau o'r system iechyd a gofal cymdeithasol. Roedd 31% o bobl LHD yn disgwyl y byddent yn cael eu trin yn waeth na phobl heterorywiol gan staff cartrefi gofal petaent yn preswyllo mewn sefydliadau o'r fath. Yn ddiddorol, roedd 35% o'r rhain dros 50 oed. Dywedodd 18% o bobl LHD eu bod yn disgwyl cael eu trin yn waeth nag unigolyn heterorywiol petai arnynt angen cymorth gofalwr cyflogedig yn eu cartrefi eu hunain. Roedd 5% yn disgwyl y byddent yn cael eu trin yn waeth na phobl heterorywiol wrth ofyn am gymorth gan Swyddfa Cyngor ar Bopeth ac roedd 6% yn dal i feddwl y byddent yn cael eu trin yn waeth wrth fynd i gael triniaeth arferol mewn ysbyty. Roedd 7% o bobl LHD yn disgwyl cael eu

Sut fydddech yn disgwyl cael eich trin petai'n hysbys eich bod yn lesbiad, hoyw neu ddeurywiol...



trin yn waeth na phobl heterorywiol gan eu meddyg teulu ond roedd y ganran yn cynyddu i 12% yn achos pobl hoyw ifanc 18-24 oed.

Awgryma ymchwil pellach gan Stonewall yn yr Arolwg "Unhealthy

Attitudes"⁴ a gwblhawyd yn 2014, nad yw anghenion LHD a phobl drawsrywiol yn cael eu bodloni. Y prif faterion a nodwyd gan bobl LHD a thrawsrywiol ac a nodir yn yr adroddiad hwn oedd: diffyg dealltwriaeth o’u hanghenion penodol, diffyg parch, iaith neu derminoleg amhriodol. Roedd unigolion o’r farn y byddai hyfforddiant digonol a modelau rôl pobl LHD a thrawsrywiol yn gwella’r sefyllfa. Yn ôl arolwg, dywedodd 33% o unigolion y dylai staff wneud mwy i wella eu profiad.

Mae gwaith ymchwil Stonewall hefyd wedi canfod gwahaniaethau mawr rhwng anghenion ieuchyd pobl LHD ac anghenion pobl heterorywiol. O’u cymharu â phobl heterorywiol, mae mwy o lesbiaid a merched deurywiol wedi hunan-niweidio, mae dynion hoyw a deurywiol yn fwy tebygol o gamddefnyddio cyffuriau yn amlach ac nid oedd pobl LHD hŷn o’r farn y gallant gael mynediad at y gwasanaethau ieuchyd yr oedd arnynt eu hangen.

Dywedodd nifer o bobl LHD eu bod wedi wynebu rhagfarn neu roeddynt yn ofni wynebu rhagfarn oherwydd eu cyfeiriadedd rhywiol. Dywedwyd fod hyn yn rhwystr i dderbyn gofal a thriniaeth briodol.

Blaenoriaethau Awgrymedig

Mae gan wahanol asiantaethau wahanol swyddogaethau wrth ymwneud â phobl hŷn, lesbiaid, pobl hoyw, ddeurywiol a thrawsrywiol sy’n derbyn gofal. Rydym yn annog trafodaeth bellach ar swyddogaeth yr holl bartneriaid a sut y gallant wireddu’r nodau a ganlyn:

- Partneriaid i barhau i gymryd camau i wella profiadau pobl hŷn mewn lleoliadau gofal
- Partneriaid i gymryd camau i wella profiadau pobl LHD a thrawsrywiol mewn lleoliadau gofal

⁴ Stonewall, Unhealthy Attitudes, (2015)

Thema Allweddol 1.4: Cynyddu nifer y Sipsiwn a Theithwyr sy'n manteisio ar wasanaethau gofal iechyd ataliol.

Gwybodaeth o'r Broses ymgysylltu:

Yn ôl yr adborth a gafwyd yn ystod y broses ymgynghori, roedd angen i wasanaethau fod yn fwy ymwybodol o'r cymunedau Sipsiwn-Teithwyr. Tynnwyd sylw at yr angen i sicrhau y gall grwpiau na chlywir lawer o sôn amdanynt, yn enwedig cymunedau Sipsiwn-Teithwyr, gofrestru gyda meddyg teulu a hefyd yr angen i sicrhau bod cyngor arbenigol ar gael ar gyfer y grwpiau hyn.

Ein Hymchwil:

Dangosodd tystiolaeth Cyfrifiad 2011 fod iechyd Sipsiwn-Teithwyr yn waeth na'r holl grwpiau lleiafrifol ethnig eraill, roedd y gyfran a ddywedodd fod eu hiechyd cyffredinol yn 'dda' neu'n 'dda iawn' yn is nag unrhyw grŵp ethnig arall, sef 70% o'i chymharu ag 81% o boblogaeth gyffredinol Cymru a Lloegr. Hefyd, nodwyd mai Sipsiwn-Teithwyr oedd yn fwyaf tebygol o ddarparu gofal di-dâl yng Nghymru a Lloegr, sef 11 y cant, a dyma'r garfan lle ceid y gyfran fwyaf o bobl a oedd yn darparu 50 awr neu fwy o ofal di-dâl, sef 4 y cant.

Mae dwy ran o dair o Sipsiwn a Theithwyr yn byw mewn Tai (Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol, 2012) ac o blith y rheini sy'n parhau i fyw mewn carafannau, mae tua 80% yn byw ar safleoedd carafannau preswyl ar gyfer Sipsiwn-Teithwyr (CLG, 2013). Y nifer bychan o aelwydydd Sipsiwn-Teithwyr sy'n weddill, tua 3,400 teulu i gyd (CLG, 2013) yw'r boblogaeth sy'n parhau i wynebu'r risg mwyaf o ran marw'n gynnar a morbidrwydd ar draws pob maes iechyd. Mae'r astudiaeth hefyd yn awgrymu fod ymron i 18 y cant o famau Sipsiwn-Teithwyr yn colli plentyn – o'i gymharu â llai nag 1% o famau yn y gymuned sefydlog.

Canfu Parry et al (2004)⁵ fod cyflwr iechyd Sipsiwn a Theithwyr yn llawer gwaeth na'r boblogaeth gyffredinol, hyd yn oed ar ôl ystyried eu statws sosio-economaidd ac mewn cymhariaeth â grwpiau eraill ar y cyrion.

- Adroddir yn aml bod merched Sipsiwn-Teithwyr yn marw 12 mlynedd yn gynt na merched yn y boblogaeth yn gyffredinol ac mae dynion Sipsiwn-Teithwyr yn marw 10 mlynedd yn gynt na dynion yn y boblogaeth gyffredinol.
- Roedd y gyfradd farwolaethau babanod deirgwaith yn fwy nag ymhlith gweddill y boblogaeth.
- Tynnwyd sylw at gyfraddau haint uwch, sy'n gysylltiedig â glanweithdra gwael a mynediad gwael at ddŵr glân, yn enwedig ar safleoedd wrth ochr y ffordd.
- Y broblem fwyaf gyffredin i Deithwyr yw'r anhawster i gael mynediad at ofal sylfaenol drwy feddygon teulu gan eu bod yn mynnu fod gan gleifion gyfeiriad parhaol.

⁵ Sarah Cemlyn, Margaret Greenfields, Sally Burnett, Zoe Matthews a Chris Whitwell ar gyfer y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, 'Inequalities experienced by Gypsy and Traveller communities: A review' (2009)

- Ceir llawer o dystiolaeth anectodaidd sy'n cefnogi'r farn nad yw llawer o Sipsiwn a Theithwyr yn ymddiried mewn gweithwyr iechyd proffesiynol i ddarparu gofal priodol, neu eu bod yn amau eu parodrwydd i gysylltu ag aelodau'r gymuned ar sail cyfartal.
- Mae diffyg gwybodaeth ymhlith gweithwyr iechyd proffesiynol am gredoau a diwylliant cymunedau Sipsiwn-Teithwyr.

O ran cael mynediad at wasanaethau iechyd, awgryma'r ymchwil y gall rhyw y meddyg teulu neu'r nyrs fod yn rhwystr i Sipsiwn-Teithwyr. Yn ôl astudiaeth a gynhaliwyd gan Duggan (2012) yn ne Cymru, y prif bryderon oedd diffyg gwybodaeth hygyrch, gwasanaethau dehongli anaddas, diffyg sensitifrwydd diwylliannol a diffyg cysondeb o ran gofal a chymorth. Daethpwyd i'r casgliad nad yw'r gwasanaethau yn addas ar gyfer ffordd o fyw symudol Sipsiwn a Theithwyr benywaidd.

Ceir tystiolaeth hefyd o wahaniaeth rhwng y ddau ryw o fewn y gymuned. Sylwodd Van Cleemput fod dynion y gymuned Sipsiwn-Teithwyr yn eithaf cyndyn o ofyn am ofal a sylw meddygol. Ar y llaw arall, roedd merched yn well am chwilio am ofal meddygol ac yn ystyried lles eu teulu yn flaenoriaeth. Mae agwedd y Sipsiwn-Teithwyr at ofal iechyd yn dibynnu llawer ar brofiadau unigol a phrofiadau'r gymuned ehangach. Hefyd, sylwodd Van Cleemput et al (2007)⁶ fod Sipsiwn-Teithwyr yn tueddu i dderbyn afiechyd:

“Disgrifiodd nifer ohonynt eu cyflwr iechyd, ni waeth pa mor ddifrifol neu eang oedd y broblem, yn nhermau'r ffordd roedd yn cyfyngu ar eu gallu i wneud tasgau bob dydd ac ymddangosai eu bod yn derbyn afiechyd cronig cyn belled bod modd rheoli'r symptomau o ddydd i ddydd. Disgrifiwyd eu hanallu i leddfu symptomau na ellid eu rheoli, roeddynt hefyd yn derbyn methiant ac roedd ganddynt ddisgwyliadau isel o safbwynt cael gwellhad. Roedd nifer o'r Sipsiwn a Theithwyr a ddaeth i'r cyflwyniadau i glywed canlyniadau'r arolwg iechyd cyntaf yn rhyfeddu fod cyflwr cyffredinol eu hiechyd yn cymharu mor anffafriol â grwpiau eraill tebyg iddynt”.

Mewn adroddiad a gyhoeddwyd yn 2015 'The National Gypsy and Traveller Health Inclusion Project 2012-2015'⁷ nodir: “Mae angen newid strwythurol a diwylliannol o fewn sefydliadau'r GIG a thu hwnt i fynd i'r afael â'r hyn sydd wrth wraidd anghydraddoldebau iechyd y gellir eu hosgoi”. Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at yr angen i egluro dyletswyddau gofal meddygon teulu mewn perthynas â chofrestru cleifion Sipsiwn-Teithwyr-Roma, yn enwedig y rhai hynny nad oes ganddynt gartref sefydlog. Mae hawl i dderbyn gwasanaeth gan y GIG yn seiliedig ar breswyllo yn y Deyrnas Unedig, yn hytrach na chenedligrwydd, ac ni ddylai diffyg cyfeiriad post parhaol fod yn rhwystr i gofrestru gyda meddyg teulu.

⁶ Sarah Cemlyn, Margaret Greenfields, Sally Burnett, Zoe Matthews a Chris Whitwell ar ran y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, 'Inequalities experienced by Gypsy and Traveller communities: A review' (2009)

⁷ Rachel Wwmyss a Zoe Matthews, The National Gypsy and Traveller Health Inclusion Project 2012-2015, (2015)

Mae diffyg ymwybyddiaeth ddiwylliannol a sensitifrwydd i anghenion y gymuned gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol yn ei gwneud yn anos fyth i'r gymuned gael mynediad at wasanaethau, ac mae hyn yn arwain at ddrwgdybiaeth a diffyg ymddiriedaeth.

Blaenoriaethau Awgrymedig

- Partneriaid i gymryd camau i hybu gwasanaethau iechyd ymhlith cymunedau Sipsiwn-Teithwyr
- Partneriaid i gymryd camau i nodi a mynd i'r afael ag unrhyw rwystrau i gael mynediad at wasanaethau iechyd sy'n effeithio ar gymunedau Sipsiwn-Teithwyr

Thema Allweddol 1.5: Rhoi gwell sylw i hawliau a dyheadau pobl sydd â phroblemau Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu.

Gwybodaeth o'r Broses ymgysylltu:

Dyweddodd y cyfranogwyr fod cyfathrebu yn faes allweddol y mae angen rhoi sylw iddo mewn perthynas â Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu. Yn ystod y digwyddiad ymgysylltu, awgrymodd cynrychiolwyr y byddai codi ymwybyddiaeth a sicrhau gwell dealltwriaeth ymhlith staff yn fuddiol, yn enwedig y rheini nad ydynt yn uniongyrchol gysylltiedig â gwasanaethau iechyd meddwl. Mynegwyd pryderon hefyd mewn perthynas â'r diffyg gwasanaethau cynghori sydd ar gael mewn ieithoedd lleiafrifoedd ethnig ac felly fod diffyg triniaeth a chanllawiau ar gael yn newis iaith y claf.

Ein Hymchwil:

Mae adroddiad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol "A yw Cymru'n decach?" yn cynnwys her sy'n seiliedig ar dystiolaeth sy'n nodi angen i "Wella mynediad at wasanaethau iechyd meddwl a chefnogi pobl sy'n profi problemau iechyd meddwl".

Anableddau Dysgu

Mae pobl ag anableddau dysgu yn marw'n gynt ac mae eu hiechyd yn waeth na'r boblogaeth gyffredinol. Gellid osgoi'r gwahaniaethau hyn i ryw raddau. Felly, maent yn *anghydraddoldebau iechyd*. Mae'r anghydraddoldebau hyn yn deillio o gyfuniad o ffactorau gan gynnwys mwy o gysylltiad â'r 'ffactorau cymdeithasol' sy'n arwain at iechyd gwael (e.e., tlodi, allgáu cymdeithasol), a'r profiad o ragfarn amlwg a'r rhwystrau sy'n wynebu pobl ag anableddau dysgu wrth gael mynediad at ofal iechyd.⁸

Yn yr adroddiad 'Health Inequalities & People with Learning Disabilities in the UK' a gyhoeddwyd yn 2012, cyfeiriodd Emerson a Baines at y prif broblemau sy'n wynebu unigolion ag anableddau dysgu, sef;

- Mwy o risg y byddant mewn cysylltiad â'r ffactorau cymdeithasol sy'n arwain at iechyd gwael, megis tlodi, tai gwael, diweithdra a diffyg cysylltiad cymdeithasol.
- Mwy o risg o broblemau iechyd â gysylltir ag achosion genetig a biolegol penodol o anableddau dysgu.
- Anawsterau cyfathrebu a llythrennedd iechyd o safon is.
- Risgiau o ran iechyd personol ac ymddygiad, megis deiet gwael a diffyg ymarfer corff.
- Diffygion yn ymwneud â chael mynediad at ddarpariaeth gofal iechyd.

Canfu astudiaeth arall a gynhaliwyd yn 2010,⁹ ac a oedd yn seiliedig ar wybodaeth a nodir ar dystysgrifau marwolaeth, fod dau brif reswm am y marwolaethau hyn a'u bod i raddau yn rhai y

⁸ Emerson and Baines, Health Inequalities and People with Learning Disabilities in the UK (2010)

⁹ Emerson et al, Public Health Observatory, How People with Learning Disabilities Die (2011)

gellid eu hatal; roeddynt hefyd yn gysylltiedig â nifer helaeth y marwolaethau ar draws mwyafrif y grwpiau o bobl ag anableddau dysgu. Y rhain oedd:

- Problemau yn yr ysgyfaint a achoswyd gan solidau neu hylifau yn mynd y ffordd anghywir (14% o farwolaethau lle cofnodwyd cyflwr a oedd yn gysylltiedig ag anableddau dysgu)
- Epilepsi neu gonfylsiynau (13% o farwolaethau lle cofnodwyd cyflwr a oedd yn gysylltiedig ag anableddau dysgu).

Iechyd Meddwl

- Bydd o leiaf 1 mewn 4 o bobl yn wynebu problem iechyd meddwl ar ryw adeg yn eu bywydau ac mae rhai amcangyfrifon mor uchel ag 1 mewn 2
- Mae o leiaf traean o deuluoedd yn cynnwys rhywun sy'n dioddef o broblem iechyd meddwl ar hyn o bryd
- Iselder – prif achos anabledd dros y byd – fydd y baich meddygol unigol mwyaf ar ofal iechyd erbyn 2020
- Mae 1 mewn 12 plentyn ac unigolyn ifanc yn hunan-niweidio'n fwriadol
- Mae tua 40,000 achos o hunan-niweidio gan blant a phobl ifanc bob blwyddyn yn arwain at arhosiad mewn ysbyty


Mae'r adroddiad 'Mental Health, Resilience and Inequalities' gan Sefydliad Iechyd y Byd, Ewrop wedi dangos fod problemau iechyd meddwl unigolion yn arwain at broblemau iechyd a chymdeithasol ehangach, gan gynnwys:

- Cyflawniad addysgol isel a chynhyrchedd isel yn y gweithle
- Lefelau uwch o afiechyd corfforol a marwolaeth
- Trais, perthynas yn chwalu a diffyg cydlyniant cymunedol

Ceir llawer o dystiolaeth hefyd sy'n dangos perthynas rhwng iechyd meddwl gwael a thlodi (a gysylltir ag amryw o ganlyniadau iechyd gwael). Mae'r siart yn dangos lefel iechyd meddwl gwael yn y gwahanol fandiau incwm.

Yn ogystal, mae Coleg Brenhinol y Seiciatryddion wedi dadlau y dylai mynediad at wasanaethau gael eu hwyluso ar draws pob oedran i bawb

sy'n dioddef problemau iechyd meddwl. Daethpwyd i'r casgliad mai'r grwpiau sy'n cael y lleiaf o sylw yw'r rheini sydd yn y cyfnod pontio rhwng y gwasanaethau glasoed ac oedolion, pobl hŷn, carcharorion, pobl ag anableddau dysgu, a phobl â phroblemau camddefnyddio sylweddau.



Blaenoriaethau Awgrymedig

- Partneriaid i gymryd camau i godi ymwybyddiaeth o fewn eu sefydliadau am y rhwystrau sy'n wynebu pobl â phroblemau iechyd meddwl neu anableddau dysgu, yn enwedig pan fyddant yn derbyn gofal mewn amgylchedd iechyd arbenigol nad yw'n arbenigo ym maes iechyd meddwl.


Thema Allweddol 1.6: Gweithio mewn partneriaeth gyda chyrrff cyhoeddus eraill yng Ngogledd Cymru i wneud y mwyaf o'n hymdrechion ar y cyd i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd lle bynnag y bo'n bosibl.

Gwybodaeth o'r Broses ymgysylltu:

Cyfeiriodd y cyfranogwyr at yr angen am fwy o gydweithio a gweithio mewn partneriaeth rhwng cyrff cyhoeddus ym mhob maes yn ymwneud ag iechyd pobl, yn enwedig yr angen i gymryd camau ym maes iechyd ataliol ymhlith rhai grwpiau â nodweddion gwarchoddedig e.e. Sipsiwn-Teithwyr. Tynnwyd sylw hefyd at bwysigrwydd cydweithio mewn meysydd eraill e.e. Byrddau Iechyd yn gweithio gyda Tai.

Yn ôl yr adborth a gafwyd yn ystod y digwyddiadau ymgysylltu, dylai gwasanaethau weithio mewn ffordd sy'n rhoi pwyslais ar yr unigolyn ac yn ystyried Hawliau Dynol wrth asesu anghenion unigolion, a dylai cyrff cyhoeddus weithio mewn partneriaeth er mwyn hwyluso'r broses o sicrhau y gall pawb gael mynediad at ofal iechyd. Hefyd, fe wnaeth y cyfranogwyr dynnu sylw at bwysigrwydd a'r angen i gyrff cyhoeddus rannu nodiadau meddygol a nodiadau gwasanaethau cymdeithasol, a hefyd yr angen i weithwyr proffesiynol ddangos parch at yr unigolyn.

Ein Hymchwil:



Yn sgil Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 caiff newidiadau mawr eu cyflwyno i'r ffordd rydym yn gweithio ar draws y sector cyhoeddus, ac mewn partneriaethau ehangach. Cynlluniwyd y 7 Nod Llesiant (gweler y diagram) i sicrhau datblygiad cynaliadwy a golyga hyn fod angen chwilio am ffyrdd o ddiwallu ein hanghenion heddiw a'u rhoi ar waith heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain.

Bydd y Ddeddf yn rhoi dyletswydd gyfreithiol a rennir ar y cyrrff rheini sydd wedi'u cynnwys yn y Ddeddf i gydweithio gyda'r bobl rydym yn eu gwasanaethu er mwyn gwireddu'r 7 nod – gan gynnwys sicrhau Cymru fwy iach. Mae'r ddyletswydd a rennir yn cynnig cyfle pwysig i gynllunio a gweithredu ar y cyd er mwyn cyflwyno'r math o raglenni gwaith amlochrog, cydweithredol sydd eu hangen i sicrhau gwelliant ar draws ac o fewn pob nod unigol. Wrth geisio gwella a gwireddu

pob un o'r nodau llesiant, bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol a hirdymor ar iechyd y boblogaeth yn gyffredinol a phan fydd camau gweithredu yn canolbwyntio'n amlwg ar y rhai sydd mewn fwyaf o angen, bydd hyn yn lleihau anghydraddoldebau iechyd. Un ffactor allweddol wrth baratoi ar gyfer rhoi Dyletswyddau'r Ddeddf ar waith yw'r gofyniad i gynnal asesiadau cynhwysfawr o les ein poblogaeth. Fel y dengys y rhyngberthynas rhwng y nodau, bydd angen i'r asesiad hwn gwmpasu'r 7 agwedd a rhaid i'r gwaith gael ei lywio gan weithgareddau ymgysylltu ystyrlon a chyfraniadau gan bobl a chymunedau ar draws Gogledd Cymru. Er ein bod yn cydnabod mai'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus unigol fydd yn gyfrifol am gynnal asesiadau yn eu hardal eu hunain, mae cylch gorchwyl nifer o'r partneriaid sector cyhoeddus yn ymestyn ar draws Gogledd Cymru. Bydd ymrwymiad ar y cyd yn allweddol er mwyn llwyddo i sicrhau asesiadau cynhwysfawr, cyson o ansawdd uchel.

Blaenoriaethau Awgrymedig

- Partneriaid i gydweithio lle bynnag y bo'n bosibl i anelu at y 7 Nod Llesiant.

Thema Allweddol 1.7: Cynyddu nifer y bobl hŷn sy'n agored i niwed a phlant sy'n cael eu himwneiddio mewn ardaloedd difreintiedig.

Gwybodaeth o'r Broses ymgysylltu:

Yn ystod y digwyddiad ymgysylltu, pwysleisiodd y cyfranogwyr yr angen i gynyddu nifer y grwpiau sy'n agored i niwed sy'n cael eu himwneiddio.

Ein Hymchwil:

Bob blwyddyn, mae'n ofynnol i Iechyd Cyhoeddus Cymru lunio Adroddiad Blynyddol¹⁰ annibynnol ar iechyd y boblogaeth leol. Dengys y gwaith ymchwil fod cyfraddau imwneiddio yn codi, gan amddiffyn pob unigolyn rhag afiechydion y gellir eu hatal; fodd bynnag, mae llawer mwy o waith i'w wneud. Cydnabyddir bod y gwasanaethau gofal sylfaenol a chymunedol yn chwarae rhan hanfodol bwysig i hybu'r pwyslais hwn ar waith ataliol. Mae awdurdodau lleol a'r trydydd sector hefyd yn bartneriaid hanfodol, sy'n gweithio gyda chymunedau lleol i gynnig arweiniad ar gyfer llawer o'r gwaith hwn.

Dangosodd yr ymchwil gan Iechyd Cyhoeddus Cymru fod cyfraddau imwneiddio yn is mewn cymunedau llai brentiedig, gan gyfrannu at anghydraddolebau iechyd. Dengys yr ystadegau fod 71% o bobl dros 65 oed yn cael brechiad rhag y fflw a 51% yn y grwpiau sy'n wynebu'r risg mwyaf. Mae hyn yn dangos fod angen ystyried imwneiddio a chynyddu nifer y bobl sy'n cael eu himwneiddio yn y grwpiau sy'n wynebu risg er mwyn lleihau anghydraddolebau iechyd.

Nodwyd hefyd y gall brechu cynifer o bobl â phosibl arwain at lai o salwch, yn enwedig ymhlith pobl hŷn, eiddil. Mae'n ddull rhad a hynod effeithiol a gall achub bywydau babanod a phlant. Mae nifer y plant sy'n cael eu brechu yn parhau yn is na lefel sy'n rhoi 'imiwnedd yr haid' gan amddiffyn plant sy'n agored i niwed nad ydynt yn medru derbyn y brechlyn. Mae nifer y bobl sy'n cael eu brechu yn erbyn fflw tymhorol yn llai na tharged Llywodraeth Cymru o 75%. Yn sgil fflw tymhorol mae llawer iawn o bobl â symptomau yn gofyn am gymorth y gwasanaethau gofal sylfaenol, a bydd yn rhaid i gyfran ohonynt fynd i'r ysbyty gan achosi oedi yng ngofal arferol yr ysbytai. Mae canran y bobl sy'n cael eu himwneiddio mewn cymunedau llai cefnog yn is, gan gyfrannu at anghydraddolebau iechyd. Mae nifer y bobl sy'n cael eu himwneiddio wedi cynyddu dros y blynyddoedd diwethaf ond mae lle i wella.

Blaenoriaethau Awgrymedig:

- Partneriaid i gyfrannu at gynyddu nifer y bobl sy'n cael eu himwneiddio mewn cymunedau difreintiedig i leihau anghydraddolebau iechyd

10 Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2015
Gogledd Cymru Iachach, Hapusach a Thecach

Amcan 2: Mynd i'r afael â chanlyniadau anghyfartal mewn Addysg i wneud y gorau o botensial yr unigolyn

Thema Allweddol 2.1: Lleihau'r bwlch o ran cyrhaeddiad addysgol gwahanol grwpiau.	28
Thema Allweddol 2.2: Lleihau bwlio oherwydd hunaniaeth mewn Addysg.	30
Thema Allweddol 2.3: Rhoi cymorth i bobl ifanc wrth drosglwyddo rhwng Addysg a Chyflogaeth	32

Thema Allweddol 2.1: Lleihau'r bwlch o ran cyrhaeddiad addysgol gwahanol grwpiau.

Gwybodaeth o'r Broses ymgysylltu:

Yn ôl adborth y cyfranogwyr, dylai hyn fod yn brif flaenoriaeth i bob ysgol. Cyfeiriodd y cyfranogwyr at bwysigrwydd lleihau'r bylchau o ran cyrhaeddiad addysgol y gwahanol grwpiau er mwyn i bawb gyflawni eu gorau. Yn ystod y trafodaethau, cyfeiriwyd at swyddogaeth Estyn mewn perthynas â'r agenda Cydraddoldeb, a mynegwyd y farn fod angen gweithredu mewn dull mwy rhagweithiol ac y dylid cryfhau rôl Estyn mewn perthynas â sicrhau ansawdd.

Ein Hymchwil:

Mae adroddiad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol "A yw Cymru'n decach?" yn cynnwys her sy'n seiliedig ar dystiolaeth sy'n nodi angen i "Gau bylchau cyrhaeddiad mewn addysg".


Wrth gymharu tystiolaeth Cyfrifiadau 1991, 2001 a 2011, y prif ganfyddiadau oedd fod gwelliant cyffredinol yng nghyrhaeddiad addysgol ond roedd grwpiau lleiafrifoedd ethnig wedi gweld mwy o welliant o'u cymharu â'r grŵp Gwyn. Yn 2011, nid oedd gan 60% o'r grŵp Sipsiwn Gwyn na'r Teithwyr Gwyddelig ddim cymwysterau. Dyma'r gyfran fwyaf ar gyfer unrhyw grŵp ethnig ac roedd ddwywaith a hanner yn fwy na'r grŵp Gwyn-Prydeinig. Ar y llaw arall, nid oedd gan 28% o bobl Pacistanaid, 29% o bobl Bangladeshaid a 24% o bobl o'r grŵp Gwyn-Prydeinig ddim cymwysterau. Yn 2011, roedd pobl o grwpiau lleiafrifoedd ethnig yn fwy tebygol na phobl o'r grŵp Gwyn-Prydeinig o ennill cymwysterau gradd neu lefel gyfatebol.

Yn ôl Llywodraeth Cymru (2014):-


- erbyn eu bod yn 5 oed, bydd plant difreintiedig dros flwyddyn ar ei hôl hi o ran eu geirfa o'u cymharu â'u cymheiriaid o gefndiroedd llai difreintiedig.
- mae 3 o bob 10 plentyn o gefndiroedd difreintiedig yn methu â chyflawni'r lefelau disgwyliedig o'u cymharu â dim ond 1 o bob 10 o'u cymheiriaid o gefndiroedd mwy cefnog.
- mae dysgwyr sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim mewn ysgolion uwchradd yng Nghymru bedair gwaith yn fwy tebygol o fod yn absennol yn rheolaidd a phedair gwaith yn fwy tebygol o fod yn absennol heb ganiatâd na'u cymheiriaid nad ydynt yn derbyn prydau ysgol am ddim.
- mae dysgwyr yng Nghymru sy'n byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru bum gwaith yn fwy tebygol o ddod yn bobl nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant (NEET) na dysgwyr sy'n byw yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig ac mae'r rheini sy'n derbyn prydau ysgol am ddim ymron deirgwaith yn fwy tebygol i fod yn NEET.

Roedd y mater hwn yn flaenoriaeth hefyd i'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn ei adroddiad 'A yw Cymru'n decach?' (2015).

Mae'r bwlch rhwng perfformiad dysgwyr sy'n derbyn prydau ysgol am ddim a'r rheini nad ydynt yn derbyn prydau ysgol am ddim wedi lleihau'r raddol dros y chwe blynedd diwethaf yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r bwlch wedi lleihau rhyw ychydig er 2012, ac yn 2013 y gyfradd yw 17.6%. Yng Nghyfnod Allweddol 4 mae'r bwlch wedi lleihau yn ystod y tair blynedd diwethaf.




Cyn i blant ddechrau'r ysgol, mae'r rheini sy'n dod o gefndiroedd mwy cefnog eisoes yn gwneud yn well na phlant o gefndiroedd tlotach o ran iaith a datblygiad cymdeithasol ac emosiynol. Mae'r hyn y bydd rhieni'n ei wneud o ran gweithgareddau addysgol yn y cyfnod cyn-ysgol yn chwarae rhan bwysig yn y cyd-destun hwn. Mae plant o aelwydydd tlawd yn llai tebygol na phlant o gartrefi cyfoethocach i gael pobl yn darllen iddynt bob dydd, chwarae gemau rhif, dysgu caneuon, adrodd hwiangerddi a phaentio.



Blaenoriaethau Awgrymedig:

- Partneriaid i gyfrannu at leihau bylchau mewn cyflawniad ymhellach



Thema Allweddol 2.2: Lleihau bwlio oherwydd hunaniaeth mewn Addysg.

Gwybodaeth o'r Broses ymgysylltu:

Roedd cyfranogwyr o'r farn y dylai camau i atal bwlio mewn ysgolion hefyd gynnwys seiberfwlio. Dylid cynnal sesiynau codi ymwybyddiaeth a hyfforddiant i rieni a phlant ynglŷn â'r peryglon a'r problemau a all godi wrth ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol, a dylid hefyd trafod pwysigrwydd troseddau casineb a bwlio yn yr ysgolion i hybu'r materion hyn a'u cysylltu â'r ymwybyddiaeth am broblemau posibl.

Ein Hymchwil:

Dengys tystiolaeth gan astudiaethau cenedlaethol fod bwlio yn broblem fawr i nifer o blant mewn ysgolion ar draws Cymru. Amcangyfrifir bod rhwng 20% a 50% o ddisgyblion yng Nghymru wedi cael eu bwlio ar ryw adeg yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol (Estyn, 2014). Nododd ymchwil gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a gyhoeddwyd yn yr adroddiad 'A yw Cymru'n decach?', fod y disgyblion a ganlyn yn fwy agored i fwlio: disgyblion sydd ag Anghenion Addysgol Arbennig, disgyblion anabl, disgyblion LHD a thrawsrywiol, disgyblion o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig a disgyblion o gefndiroedd crefyddol. Roedd achosion o fwlio yn fwy amlwg mewn ysgolion uwchradd ac roedd seiberfwlio yn destun pryder. Cyfeiriodd 'A yw' Cymru'n decach?' hefyd at adroddiad Estyn (2014) a nododd nad oedd cynlluniau cydraddoldeb strategol ysgolion yn 'talw sylw llawn i'r ystod lawn o nodweddion gwarchoddedig'. Gwelwyd bod ymwybyddiaeth a dealltwriaeth ysgolion o fwlio, ynghyd â'u polisïau a gweithdrefnau, yn aml yn wan.

Yn 2014 cynhaliodd Estyn¹⁰ adolygiad thematig o'r cynnydd a wnaed i fynd i'r afael â bwlio mewn ysgolion. Daethpwyd i'r casgliad fod *'grwpiau penodol o ddisgyblion yn wynebu risg uwch na'r cyffredin o gael eu bwlio, gan gynnwys:*

- *disgyblion ag anghenion arbennig neu anabledd;*
- *disgyblion lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol; a*
- *disgyblion o gefndir ethnig lleiafrifol neu gefndir crefyddol.'*

Ymhellech, dywedwyd:

'Yn y rhan fwyaf o ysgolion uwchradd, mae disgyblion a staff yn pryderu am y cynnydd mewn bwlio seiber, yn enwedig mewn perthynas â'r nodweddion gwarchoddedig. Mae bwlio seiber wedi creu mathau newydd o fwlio nad yw rhai staff yn gyfarwydd â nhw. Yn yr arfer orau mae staff yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am y technolegau y mae disgyblion yn eu defnyddio ac yn deall y potensial i'w camddefnyddio yn yr ysgol a thu hwnt.'

¹⁰ Estyn, Gweithredu ar Fwlio, (2014)

Roedd yr adroddiad yn cynnwys cyfres o argymhellion i'w rhoi ar waith gan ysgolion, awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol. Roedd y rhain fel a ganlyn:

Dylai ysgolion:

A1 godi ymwybyddiaeth am fwlio ar sail nodweddion gwarchoddedig gyda disgyblion, rhieni, staff a llywodraethwyr a defnyddio dull mwy rhagweithiol o atal a lliniaru ei effeithiau;

A2 ymgynghori â disgyblion, rhieni a phobl eraill, i nodi graddau a natur bwlio yn yr ysgol a chytuno ar gynnwys cynlluniau cydraddoldeb strategol;

A3 cynllunio cyfleoedd sy'n briodol i oedran yn y cwricwlwm i drafod materion yn ymwneud â'r nodweddion gwarchoddedig a meithrin gallu disgyblion i wrthsefyll bwlio;

A4 sicrhau bod gan staff ddealltwriaeth glir o raddau a natur y bwlio a allai ddigwydd yn yr ysgol, gan gynnwys bwlio seiber,

A5 sicrhau bod staff yn gwybod sut i ddelio ag achosion o fwlio a'u cofnodi;

A6 cofnodi a monitro achosion o fwlio mewn perthynas â'r nodweddion gwarchoddedig a defnyddio'r wybodaeth hon i adolygu amcanion cydraddoldeb strategol; a

A7 gwneud yn siŵr bod yr holl bolisiau a gweithdrefnau yn bodloni gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010.

Dylai awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol:

A8 ddarparu hyfforddiant a chymorth i staff ysgolion i wella eu dealltwriaeth o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a'i goblygiadau;

A9 darparu hyfforddiant a chymorth i lywodraethwyr ysgol i'w galluogi i gyflawni eu cyfrifoldebau statudol i fonitro cynlluniau ac amcanion cydraddoldeb strategol; a

A10 monitro ansawdd ac effeithiolrwydd cynlluniau cydraddoldeb strategol ysgolion yn agosach.

Blaenoriaethau Awgrymedig

- Mae'n amlwg o'r adroddiad fod llawer o waith i'w wneud yn y maes gweithredu hwn a dylai gweithredu argymhellion Estyn fod yn flaenoriaeth.

Thema Allweddol 2.3: Rhoi cymorth i bobl ifanc wrth drosglwyddo rhwng Addysg a Chyflogaeth.

Gwybodaeth o'r Broses ymgysylltu:

Awgrymwyd y dylid addysgu rhieni am y mathau o addysg a chyfleoedd gwaith sydd ar gael er mwyn galluogi rhieni i roi arweiniad i'w plant ar ôl iddynt gwblhau eu haddysg ffurfiol.

Nodwyd bod pobl iau yn colli cyfleoedd gwaith posibl oherwydd fod pobl hŷn yn parhau i weithio am gyfnod hwy gan fod oedran ymddeol yn cael ei ddileu. Awgrymwyd y dylai cyflogwyr sicrhau bod cynllun olyniaeth yn ei le fel y gallant gynllunio ar gyfer pobl iau sy'n dod i mewn a'r bobl hŷn sy'n ymddeol er mwyn rheoli'r cyfnod pontio, nid yn unig o ran y newid yn oedran y gweithwyr, creu mwy o swyddi i'r bobl ifanc a chadw swyddi ar gyfer y bobl hŷn ar yr un pryd, ond hefyd er mwyn rhannu'r wybodaeth ymhlyg y gellir ei cholli pan fydd yr unigolyn hŷn yn gadael y gwaith.

Tynnwyd sylw at brentisiaethau fel strategaeth ar gyfer helpu pobl ifanc i gael gwaith a nodwyd y dylid gwneud mwy i hybu prentisiaethau yn yr ysgolion. Bydd Llywodraeth Cymru yn ariannu prentisiaethau ar gyfer pobl 16-24 oed ac mae hyn yn gam cadarnhaol ar gyfer y grŵp oedran hwn wrth iddynt chwilio am waith ac ennill cymwysterau a sgiliau swyddi. Dylid hybu ffeiriau gyrfaedd yn yr ysgolion a rhoi gwell cyngor ym maes gyrfaedd.

Awgrymodd y cyfranogwyr y dylid gwahodd colegau a phrifysgolion lleol i ymuno â Rhwydwaith Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Gogledd Cymru fel partneriaid er mwyn hybu ymdeimlad o weithio mewn partneriaeth ar draws y rhanbarth a hefyd sicrhau yr ymdrinnir â'r holl amcanion gan sefydliadau yn y rhwydwaith.

Ein Hymchwil:

Yn yr adroddiad 'A yw Cymru'n decach?' a gyhoeddwyd yn 2015 gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, cyfeiriwyd at y ffaith fod gan bobl ifanc fwy o gymwysterau nag erioed yn 2013, fodd bynnag roedd y gyfradd ddiweithdra ymhlith y grŵp hwn wedi cynyddu. Nid oedd y gyfradd gyflogaeth wedi newid yn 2013 o'i chymharu â 2008, ond roedd y gyfradd ddiweithdra wedi cynyddu'n sylweddol wrth i mwy o bobl symud i'r farchnad swyddi. Effaith hyn yw bod yr anghydraddoldebau ym meysydd rhyw, anabledd, ethnigrwydd a grŵp sosio-economaidd, a nodwyd yn adroddiad 'A yw Cymru'n decach?' 2011, wedi parhau. Mae'r anghydraddolebau rhwng pobl ifanc a grwpiau oedran eraill wedi cynyddu.

O ran dynion a merched, nid welwyd newid mawr yn y gyfradd gyflogaeth na'r gyfradd ddiweithdra yn ystod y cyfnod hwn, felly mae'r bwlch rhwng y ddau ryw yn parhau. Yn achos pobl anabl, roedd llai na'u hanner (42%) yn gweithio yn 2013 o'i gymharu â bron i thri-chwarter (71%) pobl nad ydynt yn anabl. Cododd cyfradd ddiweithdra pobl anabl i bron i un mewn wyth. Ymhlith grwpiau lleiafrifoedd ethnig, roedd cyfraddau cyflogaeth statig yn golygu bod y bylchau sylweddol rhwng lleiafrifoedd ethnig a phobl Groenwyn yn parhau, 51% o'i gymharu â 72%. Cododd diweithdra ymhlith y rhan fwyaf o grwpiau ethnig dros yr un cyfnod.

Gwelwyd gostyngiad sylweddol yng nghyflogaeth pobl ifanc ond roedd cynnydd yng nghyfraddau cyflogaeth y grwpiau oedran hŷn, gan greu bwlch mawr rhwng pobl ifanc a phobl hŷn. Ar yr un pryd, cynyddodd diweithdra ymhlith pobl 16-24 oed a bellach maent bedair gwaith yn fwy tebygol o fod yn ddiwaith na phobl 35-54 oed.

Yng Nghymru yn 2008 a 2013, Mwslemiaid oedd y grŵp â'r gyfradd gyflogaeth isaf.

Yng Nghymru ehangodd y bwlch rhwng cyflogau pobl ifanc, lleiafrifoedd ethnig a phobl o grwpiau sosio-economaidd is o'u cymharu â rhai grwpiau eraill. Pobl ifanc oedd yn ennill y cyflogau isaf yn 2013, sef cyflog o £6.50 yr awr ar gyfartaledd o'u cymharu â phobl 35-44 oed a oedd yn ennill £11.20 yr awr ar gyfartaledd.

Blaenoriaethau Awgrymedig:

- Partneriaid i gynnig cymorth i bobl ifanc wrth iddynt bontio rhwng Addysg a Chyflogaeth a lleihau'r bylchau rhwng y gwahanol grwpiau.

Amcan 3: Mynd i'r afael ag anghydraddoldebau o ran Cyflogaeth a Chyflog

Thema Allweddol 3.1: Canfod a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau yn y prosesau recriwtio, cadw, hyfforddi a dyrchafu	35
Thema Allweddol 3.2: Canfod a mynd i'r afael ag unrhyw fylchau rhwng cyflogau pobl â gwahanol nodweddion gwarchoddedig	38

Thema Allweddol 3.1: Canfod a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau yn y prosesau recriwtio, cadw, hyfforddi a dyrchafu.

Gwybodaeth o'r Broses ymgysylltu:

Roedd y cyfranogwyr yn cydnabod fod proses ymgeisio ddigidol yn gyffredin mewn sawl sefydliad, fodd bynnag nid yw'r dull hwn yn addas i bawb ac roedd yr angen i sicrhau bod mwy nag un dull o ymgeisio am swydd ar gael yn bwysig iawn er mwyn i bawb gael mynediad at waith. Mae angen i gyflogwyr fod yn fwy ymwybodol o anghenion yn ymwneud ag anabled a hefyd o'r addasiadau y gellir eu cyflwyno yn y gweithle i sicrhau eu bod yn gwbl addas i ymdrin â materion sy'n codi yn y gweithle. Cafwyd trafodaeth ynglŷn â chodi ymwybyddiaeth am gyfleoedd a datblygu gyrfa ymhlith gwahanol grwpiau. Fe wnaeth y cyfranogwyr hefyd dynnu sylw at yr angen i gyflogwyr gael systemau cadarn ar waith o ran cadw staff a rhoi lle blaenllaw i Gynllunio Olyniaeth a Gweithlu yn eu cynlluniau strategol. Mae angen i gyflogwyr sicrhau bod trefniadau trosglwyddo dan reolaeth ar waith pan fydd pobl hŷn yn agosáu at oedran ymddeol a'r genhedlaeth iau yn dechrau ar eu gyrfaedd, yn enwedig wrth i'r oedran pensiwn godi a mwy o bobl aros yn eu swyddi gan olygu nad oes swyddi ar gael i bobl iau. Mynegwyd y farn fod pobl hŷn yn teimlo dan bwysau (mewnol/ sefydliadol) i wneud lle i'r genhedlaeth iau, yn enwedig yn yr hinsawdd economaidd bresennol.

Ein Hymchwil:

Mae adroddiad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol "A yw Cymru'n Decach?" yn cynnwys her sy'n seiliedig ar dystiolaeth sy'n nodi angen i "Annog recriwtio, datblygu a gwobrwyo teg mewn cyflogaeth".

Oherwydd fod samplau rhai o'r arolygon cenedlaethol mor fach, mae'n amhosibl cael set data cyson sy'n dangos cyfraddau cyflogaeth ar gyfer pob un o'r grwpiau gwarchoddedig ar lefel leol neu rhanbarthol. Rydym wedi canfod tystiolaeth fod cyfraddau cyflogaeth y grwpiau a ganlyn yn is:


- Merched
- Pobl Anabl
- Lleiafrifoedd Ethnig
- Pobl Hŷn
- Pobl Iau

Awgryma ymchwil yr Arolwg Llafurlu fod pobl anabl yn llawer mwy tebygol o gael eu cyflogi yn y Deyrnas Unedig

bellach nag yn 2002, ond mae pobl anabl yn dal i fod yn llawer llai tebygol o fod mewn gwaith na



phobl nad ydynt yn anabl. Ym mis Mawrth 2013, roedd 49% o'r boblogaeth anabl oedran gweithio mewn gwaith yn y Deyrnas Unedig, o'i gymharu â 91.8% o bobl nad oeddnt yn anabl (a). Dros y 14 mlynedd diwethaf, mae'r bwlch hwn wedi lleihau 10 pwynt canrannol gan aros yn sefydlog dros y ddwy flynedd ddiwethaf er gwaethaf yr hinsawdd economaidd (b).



Dengys Ystadegau

Allweddol Llywodraeth

Cymru ar gyfer 2015 mai

71.5% oedd y gyfradd

gyflogaeth ymhlith pobl

16-64 oed yng Nghymru,

ychydig yn is na'r gyfradd

ar gyfer y Deyrnas Unedig,


sef 73.4%. Roedd y

gyfradd ddiweithdra yng

Nghymru yn 5.9%, ychydig

yn uwch na chyfradd y

Deyrnas Unedig, sef 5.6%, ac roedd y gyfradd anweithgarwch economaidd ymhlith pobl 16-64 oed yng Nghymru yn 23.9%, sy'n uwch na chyfradd y Deyrnas Unedig o 22.1% (c).



Dros y flwyddyn ddiwethaf, gostyngodd y gyfradd gyflogaeth yng Ngogledd Cymru ond arhosodd y gyfradd ddiweithdra yr un fath a bu cynnydd yn y gyfradd gweithgarwch economaidd. Roedd 305,000 o bobl mewn gwaith yng Ngogledd Cymru yn y flwyddyn hyd at fis Medi 2014, sef lleihad o 4,800 (neu 2 y cant) dros y flwyddyn. Yn ystod yr un cyfnod bu cynnydd o 1 y cant yng nghyflogaeth yng Nghymru a chynnydd o 2 y cant yn y Deyrnas Unedig. Yng Ngogledd Cymru, bu gostyngiad mewn 5 o'r 6 awdurdod yn ystod y flwyddyn, ac yn Wrecsam yr oedd y gostyngiad mwyaf (gostyngiad o 3 y cant). Yn awdurdod lleol Conwy bu cynnydd yn ystod y flwyddyn (cynnydd o 1 y cant).

Blaenoriaethau a Awgrymir

Mae'r blaenoriaethau yn parhau yn eithaf tebyg i'r blaenoriaethau a nodwyd yn 2012:-

- cynnydd yng nghanran y gweithwyr 16-24 oed (Pob Partner sy'n cymryd rhan)
- cynnydd yng nghanran y gweithwyr 50-64 (Pob Partner sy'n cymryd rhan)
- cynnydd yng nghanran y gweithwyr 65 oed a throsodd (Pob Partner sy'n cymryd rhan)
- cynnydd yng nghanran y gweithwyr sy'n bobl anabl (Pob Partner sy'n cymryd rhan)

- Caiff unrhyw anghydraddoldebau eraill ym mhroses gyflogaeth trefniadaethol y sector cyhoeddus yng ngogledd Cymru eu nodi mewn trefniadau monitro cyflogaeth newydd
- Gall partneriaid ddangos eu bod wedi cymryd camau i oresgyn unrhyw anghydraddoldebau neu rhwystrau a nodwyd.

Thema Allweddol 3.2: Canfod a mynd i'r afael ag unrhyw fylchau rhwng cyflogau pobl sydd â gwahanol nodweddion gwarchoddedig.

Gwybodaeth o'r Broses ymgysylltu:

Awgrymodd y cyfranogwyr y dylai cyflogwyr hyrwyddo eu hunain drwy fynd allan i'r gymuned i ddenu gweithwyr newydd. Hefyd, awgrymwyd y dylai sefydliadau lleol weithio gyda'i gilydd mewn partneriaeth i hyfforddi pobl leol, eu helpu i gael gwaith, a'u darparu â'r sgiliau cyflogadwyedd sydd eu hangen arnynt i ddod o hyd i waith gan y bydd hyn, yn ei dro, yn rhoi hwb i'r economi leol. Awgrymodd y cyfranogwyr hefyd y dylai cyflogwyr gymharu cyfraddau llwyddiant a chynnydd pobl â gwahanol nodweddion gwarchoddedig yn eu gyrfaoedd, gan gynnwys y rheini a fu ar gyfnod mamolaeth, er mwyn olrhain taith sefydliadol y gweithwyr i ddeall pam nad ydynt o bosibl yn dangos cynnydd. Awgrymodd y cyfranogwyr hefyd y rhoddir mwy o bwyslais ar leihau'r bwlch mewn cyflogau ac ymrwymo i'r cyflog byw.

Ein Hymchwil:

Dengys ymchwil cenedlaethol fod anghydraddoldebau yn lefelau cyflog y ddau ryw a phobl o wahanol gefndiroedd ethnig, a rhwng pobl anabl a phobl nad ydynt yn anabl. Mae'r wybodaeth genedlaethol, leol a rhanbarthol sydd ar gael yn ymwneud â'r bwlch cyflog rhwng y ddau ryw yn unig. Nodir bod bwlch rhwng cyflogau'r ddau ryw hefyd yng Ngogledd Cymru ac ardaloedd yr awdurdodau lleol cyfansoddol. Fodd bynnag, gan fod y sampl yn fach ni ellir cymharu data rhanbarthol a lleol o'r naill flwyddyn i'r llall.

Roedd cyfartaledd cyflogau wythnosol llawn amser Gogledd Cymru yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru yn 2013. Mewn perthynas â'r Deyrnas Unedig, roedd cyflogau yng Ngogledd Cymru yn 85% o gyfartaledd y Deyrnas Unedig yn 2014, ac roedd cyflogau yng Nghymru yn 86.6% o gyfartaledd y Deyrnas Unedig.

Nododd adroddiad 'A yw Cymru'n decach?' (2015) fod y bwlch rhwng cyflogau'r ddau ryw wedi gostwng o 20% i 17%. Roedd y bwlch wedi mynd yn llai gan fod cyflog dynion wedi gostwng mwy ar gyfartaledd rhwng 2008 a 2013 na chyflog merched. Yng Nghymru, aeth y bwlch rhwng cyflogau pobl ifanc, lleiafrifoedd ethnig a phobl o grwpiau sosio-economaidd is yn fwy, o'i gymharu â rhai grwpiau eraill. Erbyn 2013, pobl ifanc oedd yn ennill y cyflogau isaf, sef cyfartaledd o £6.50 yr awr o'u cymharu â phobl 35-44 oed a oedd yn ennill £11.20 yr awr.

Roedd y bwlch rhwng y ddau ryw yn parhau yn uchel ymhlith graddedigion, ac roedd dynion yn ennill mwy o gyflog hyd yn oed pan oeddynt wedi astudio'r un pwnc â merched, a dangosodd y gwaith ymchwil fod graddedigion gwrywaidd yn cael gwell canlyniadau o ran gwaith a chyflog na graddedigion benywaidd.


Dynion o dras Bangladeshaid oedd yn ennill y cyflogau isaf o blith yr holl grwpiau ethnig ac mae dynion Duon a'u teuluoedd wedi gweld y gostyngiadau mwyaf yn eu cyflogau ac incwm er 2010. Mae nifer y gweithwyr Du ac Asiaidd mewn swyddi â chyflog isel wedi codi.

Mae ymron pawb wedi gweld gostyngiad yn eu cyflogau (mewn termau real). Y rheini yr effeithiwyd arnynt fwyaf oedd: dynion, pobl ifanc, y grŵp ethnig Affricanaidd/Caribiaidd/Du, Crefyddau nad ydynt yn Gristnogol yn enwedig Siciaid. Dengys ymchwil cenedlaethol hefyd fod cyflogau yn aml yn uwch yn Lloegr nag yn yr Alban a Chymru, ac mae cyflogau yn is yng Nghymru hyd at yr oedran ymddeol arferol, sef 65 oed.



Cyflogau gros wythnosol amser llawn canolrif yn ôl rhyw, y Deyrnas Unedig, 1997 i 2014

Ffynhonnell: Arolwg Blynyddol o Oriau a Chyflogau (ASHE) – Y Swyddfa Ystadegau Gwladol



Cyflogau gros wythnosol amser llawn canolrif yn ôl rhyw ac oedran, y Deyrnas Unedig, Ebrill 2014

Ffynhonnell: Arolwg Blynyddol o Oriau a Chyflogau (ASHE) – Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Blaenoriaethau Awgrymedig

- Gostyngiad yn y gwahaniaeth canrannol yng nghymedr cyflogau gros fesul awr Dynion a Merched (amser llawn) (Gogledd Cymru)
- Gostyngiad yn y gwahaniaeth canrannol yng nghymedr cyflogau gros fesul awr Dynion a Merched (rhan amser) (Gogledd Cymru)

- Ceir tystiolaeth bod partneriaid wedi cymryd camau i fynd i'r afael â'r gwahaniaeth rhwng cyflogau grwpiau gwarchodedig yn eu sefydliadau eu hunain.

Amcan 4: Lleihau anghydraddoldebau o ran diogelwch personol

Thema Allweddol 4.1: Cynyddu cyfraddau adrodd am droseddau casineb ac aflonyddu a chymryd camau i leihau troseddau casineb ac aflonyddu gan gynnwys cam-drin a bwlio arlein	42
Thema Allweddol 4.2: Cynyddu cyfraddau adrodd am gam-drin domestig a chymryd camau i leihau cam-drin domestig	44
Thema Allweddol 4.3: Cynyddu ymwybyddiaeth mewn cymunedau sy'n agored i niwed am dwyll dros y ffôn ac arlein	46

Thema Allweddol 4.1: Cynyddu cyfraddau adrodd am droseddau casineb ac aflonyddu a chymryd camau i leihau troseddau casineb ac aflonyddu gan gynnwys cam-drin a bwlio arlein.

Gwybodaeth o'r Broses ymgysylltu:

Dyweddodd y cyfranogwyr fod angen diffiniad cliriach o Droseddau Casineb. Y farn oedd bod 'casineb' yn air cryf i ddisgrifio'r hyn sydd wedi digwydd i rywun ac yn aml iawn nid oedd y rheini a oedd wedi dioddef cyfres o ddiryddiadau cyson, cynnil, dros gyfnod hir yn eu disgrifio fel trosedd ond yn hytrach fel rhywbeth a oedd wedi digwydd iddynt am gyfnod hir yn eu bywydau. Mynegwyd pryder gan rai grwpiau nad oedd gan y bobl sy'n bwlio ar Facebook a'r cyfryngau cymdeithasol ddim syniad o'r effaith ar eu dioddefwyr; roedd hyn yn arbennig o wir yn achos pobl ifanc. Dylid rhoi mwy o wybodaeth yn yr ysgolion ynglŷn ag effeithiau bwlio arlein a gallu'r Heddlu i olrhain bwlio arlein. Gallai athrawon gyflwyno'r neges hon neu asiantaethau eraill sy'n cyflwyno negeseuon eraill drwy'r system addysg. Gellid defnyddio unigolion sydd yn amlwg yn y cyfryngau fel modelau rôl i gyfleu'r neges, a gallai hyn fod yn fwy perthnasol i fyfyrwyr ifanc.

Ein Hymchwil:

Mae adroddiad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol "A yw Cymru'n decach?" yn cynnwys her sy'n seiliedig ar dystiolaeth sy'n nodi angen i "Ddileu Trais, cam-drin ac aflonyddu yn y gymuned".

Dengys canfyddiadau'r Prosiect Ymchwil i Droseddau Casineb yng Nghymru fod y sefyllfa'n gwella, fodd bynnag, mae'n amlwg fod troseddau casineb yn realiti bob dydd i lawer o bobl yng Nghymru o hyd.

Y nodwedd warchoddedig sydd yn arwain at y nifer mwyaf o troseddau o'r fath yw hil y dioddefwr (Prosiect Ymchwil Troseddau Casineb yng Nghymru). Fodd bynnag, yn ddiddorol iawn, mae nifer y troseddau casineb a gofnodwyd gan yr Heddlu yng Nghymru a Lloegr wedi lleihau, yn enwedig y rheini a gaiff eu hysgogi gan hil. Mae nifer y troseddau casineb a gaiff eu hysgogi gan grefydd, anabledd a thrawsrywioldeb wedi codi.

Troseddau Casineb a Gofnodwyd 2012/2013

Edefnyn Troseddau Casineb	Gogledd Cymru	Cymru
Hil	325	1,398
Crefydd	7	39
Cyfeiriadedd Rhywiol	56	219
Anabledd	32	135
Trawsrywiol	7	19
Cyfanswm y troseddau casineb	427	1,810
Cyfanswm y troseddau	418	1,765

Yn 2013/14 cafodd 1,809 o droseddau casineb eu hadrodd i'r Heddlu yng Nghymru ac o'r rhain roedd 122 (8%) yn droseddau casineb ar sail anabledd, 1,368 (76%) yn droseddau casineb ar sail hil, 54 (3%) yn droseddau casineb ar sail crefydd /ffydd, 244 (13%) yn droseddau casineb ar sail cyfeiriadedd rhywiol a 21 (1%) yn droseddau casineb ar sail trawsrywiol.

Cymru a Lloegr – Troseddau Casineb a gofnodwyd gan yr Heddlu yn ôl yr edefnyn monitro, 2011/12 i 2013/14

Edefnyn Troseddau Casineb	2011/12	2012/13	2013/14	% y newid 2012/13 i 2013/14
Hil	36,008	35,889	37,484	4
Crefydd	1,621	1,573	2,273	45
Cyfeiriadedd Rhywiol	4,364	4,261	4,622	8
Anabledd	1,753	1,843	1,985	8
Trawsrywiol	310	361	555	54
Cyfanswm y ffactorau ysgogol	44,056	43,927	46,919	7
Cyfanswm y troseddau casineb	Amh.	42,236	44,480	5

Yn 2013 roedd troseddau casineb a digwyddiadau cysylltiedig yn parhau i fod yn broblem ddifrifol ym Mhrydain a dioddefodd un mewn chwech o lesbiaid, pobl hoyw a deurywiol oherwydd trosedd neu ddigwyddiad casineb yn ystod y tair blynedd diwethaf. Dywedodd dros hanner y rheini a ddioddefodd drosedd neu ddigwyddiad casineb fod y troseddwr yn ddiethryn o dan 25 oed. Fodd bynnag, dywedodd tri o bob deg dioddefwr eu bod yn adnabod y troseddwr neu un o'r troseddwr, boed rheini'n byw yn yr ardal, yn gydweithiwr neu hyd yn oed yn ffrind neu aelod o'r teulu.

Yn ystod y cyfnod rhwng Ebrill 2014 a Mehefin 2015, cafodd 315 achos o droseddau casineb eu hadrodd i Gymorth Dioddefwyr Cymru.

Blaenoriaethau Awgrymedig

Mae'r blaenoriaethau yn debyg iawn i'r rheini a nodwyd yn 2012 ac mae sicrhau yr adroddir am droseddau casineb ac yr ymdrinnir â hwy, ynghyd â gwaith ataliol yn debygol o fod yn flaenoriaethau hirdymor.

- Cynnydd yn nifer y troseddau casineb a gaiff eu hadrodd o blith y grwpiau â nodweddion gwarchoddedig
- Partneriaid i barhau i ymgysylltu o ran gwaith ataliol yn ymwneud â throseddau casineb ac aflonyddu er mwyn lleihau troseddau casineb.

Thema Allweddol 4.2: Cynyddu cyfraddau adrodd am gam-drin domestig a chymryd camau i leihau cam-drin domestig.

Gwybodaeth o'r Broses ymgysylltu:

Awgrymodd y cyfranogwyr y dylid ystyried unigolion anabl a allai fod mewn perygl o ddioddef trais domestig yn eu cartrefi ac a fyddent efallai yn annhebygol o adrodd am hyn oherwydd yr effaith bosibl ar eu darpariaeth gofal. Awgrymwyd hefyd y dylid codi ymwybyddiaeth ymhlith staff sy'n ymdrin â'r cyhoedd ond nad ydynt o anghenraid yn uniongyrchol gysylltiedig â gwasanaethau cam-drin domestig, ynglŷn â sut a ble y dylid cyfeirio pobl i gael cymorth os gofynnir amdano.

Ein Hymchwil:

Ceir llawer o dystiolaeth sy'n tynnu sylw at broblem trais domestig a'i effaith anghymesur ar fywydau pobl.

Yng Nghymru yn 2014-15, atgyfeiriwyd cyfanswm o 4514 menyw at wasanaethau cam-drin domestig. Cyfeiriwyd 2247 at lochesi, a 2267 at wasanaethau cymorth fel y bo'r angen. Rhwng 2008 a 2013 mae Llinell Gymorth Cam-drin Domestig Cymru wedi gweld cynnydd yn nifer y galwadau y mae'n eu rheoli, o 22,285 galwad i 29,718. Mae nifer y galwadau gan y rheini sy'n dioddef Cam-drin Domestig / Trais Rhywiol wedi cynyddu 7%. Mae hyn yn cynnwys rheoli 11.2 galwad y dydd gan alwyr sy'n dioddef Cam-drin Domestig / Trais Rhywiol, 2.4 gan bobl sy'n pryderu am sefyllfa eraill, a 41.4 galwad y dydd gan asiantaethau.

Yn ôl y Swyddfa Ystadegau Gwladol, fe wnaeth 7.1% o fenywod a 4.4% o ddynion ddioddef cam-drin domestig yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, sy'n cyfateb i amcangyfrif o 1.2 miliwn o ddioddefwyr cam-drin domestig benywaidd a 700,000 o ddioddefwyr gwrywaidd. Yn gyffredinol, roedd 30% o fenywod ac 16.3% o ddynion wedi dioddef cam-drin domestig ers eu bod yn 16 oed, gan gyfateb i amcangyfrif o 4.9 miliwn dioddefwr benywaidd a 2.7 miliwn dioddefwr gwrywaidd. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, y mathau mwyaf cyffredin o drais o natur bersonol oedd cam-drin gan bartner (nad oedd yn rhywiol) a stelcian: dywedodd 4% o fenywod a 2.8% o ddynion iddynt gael eu cam-drin gan eu partneriaid. Roedd 2% o fenywod a 0.5% o ddynion wedi dioddef rhyw fath o ymosodiad rhywiol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Dangosodd cymhariaeth uniongyrchol o'r data gan 12 o grwpiau sy'n aelodau o Cymorth i Fenywod Cymru fod nifer yr atgyfeiriadau wedi lleihau yn 2014-15, ynghyd â nifer a chanran y Merched a oedd yn cael eu derbyn i lety.

Er mawr bryder, dengys y data fod 7 o'r 10 math o gam-drin ar gynnydd, gan gynnwys adroddiadau am gam-drin emosiynol, cam-drin corfforol a phriodasau dan orfod.

Ochr yn ochr â hyn mae cynnydd wedi bod yng nghyfradd y Merched mewn llochesi sy'n wynebu problemau iechyd meddwl, o draean ar ddechrau'r flwyddyn i ymron i dri-chwarter ar ddiwedd y flwyddyn. Awgrymodd data cenedlaethol fod afiechyd meddwl ar gynnydd ymhlith

merched yng Nghymru er 2008 a bod merched mewn mwy o berygl o ddirodddef afiechyd meddwl. Hefyd, roedd cynnydd nodedig yn yr achosion o afiechyd meddwl ymhlith dynion a merched canol-oed, yn enwedig dynion yn y grwpiau oedran 40-44 a 45-49.

Blaenoriaethau Awgrymedig

Ni cheir llawer o dystiolaeth i awgrymu y dylid newid ein pwyslais ar y blaenoriaethau a ganlyn:

- Cynnydd yn nifer yr achosion o drais domestig yr adroddir amdanynt
- Partneriaid i barhau i gymryd rhan mewn gwaith ataliol yn maes trais domestig.

Thema Allweddol 4.3: Cynyddu ymwybyddiaeth mewn cymunedau sy'n agored i niwed am dwyll dros y ffôn ar arlein.

Gwybodaeth o'r Broses ymgysylltu:

Fe wnaeth y cyfranogwyr dynnu sylw at eu pryderon ynghylch seiber-droseddu; rhannwyd yr wybodaeth i fathau difrifol o droseddu arlein – Sgamiau yn cynnwys yr Henoed, a Thwyll a Throseddu yn ymwneud â dwyn manylion personol. Roedd y grwpiau yn pryderu'n fawr am sgamiau yn ymwneud â'r henoed ond roeddynt yn cydnabod y gall y math hwn o dwyll effeithio ar bob grŵp oedran. Caiff deiliaid tai eu targedu ac mae'r henoed yn fwy agored i'r troseddau hyn. Gellir eu twyllo drwy sgamiau ar y rhyngwrdd, dros y ffôn neu gan werthwyr wrth y drws. Nod y drosedd yw twyllo'r unigolyn i brynu neu gytuno i dalu arian neu rhoi manylion banc. Awgrymodd y cyfranogwyr y gallai amlasiantaethau roi mwy o wybodaeth i ddeiliaid tai pan fyddant yn ymweld â phobl yn eu cartrefi gan dynnu eu sylw at y sgamiau hyn, esbonio sut y gallent osgoi cael eu twyllo a gyda phwy y dylent gysylltu er mwyn rhoi gwybod am unrhyw weithgaredd amheus.

Ein Hymchwil:

Dros y blynyddoedd diwethaf bu pryder cynyddol nad yw'r ystadegau swyddogol sy'n ymwneud â throseddu yng Nghymru a Lloegr yn datgelu gwir raddfa'r achosion o dwyll. Fel y gwelir yn amcangyfrifon Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr, mae nifer y troseddau wedi lleihau o 19 miliwn ar eu hanterth yn 1995 i lai na 7 miliwn yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mehefin 2015. Dadleuir nad yw achosion o dwyll wedi lleihau mewn gwirionedd, ond yn hytrach maent wedi newid ac nid yw dull yr arolwg o fesur troseddau yn cipio data am y mathau newydd o dwyll.

Mewn perthynas â'r newid hwn, mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol wedi cydnabod fod bwlb yn ei dull adrodd ac mae'n datblygu ei phrif fodiwl dioddefwyr yn Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr i gynnwys twyll ac elfennau o seiber-droseddu sy'n digwydd yng nghartrefi pobl. Er mis Hydref 2015, mae'r holiadur yn cynnwys cwestiynau newydd. Mae'r cwestiynau newydd yn mynd y tu hwnt i dwyll cardiau plastig a bancio i gynnwys amrediad ehangach o dwyll a throseddau camddefnyddio cyfrifiaduron, gan gynnwys gweithredoedd gan unigolion, trwy'r post, dros y ffôn ac arlein. Maent hefyd yn cynnwys gwahanol fathau o niwed neu golled, gan gynnwys digwyddiadau lle na chafodd y dioddefwyr ddim niwed neu golled neu ychydig iawn o niwed neu golled, achosion lle cawsant eu had-dalu gan eraill (megis y banc neu gwmni cardiau credyd) ac achosion lle cafodd y dioddefwr niwed neu golled sylweddol.

Wrth ddatblygu'r holiadur newydd, cynhaliwyd prawf ar raddfa fawr rhwng Mai ac Awst 2015 yng Nghymru a Lloegr. Dangosodd y canlyniadau cychwynnol y prif bwyntiau a ganlyn:-

- amcangyfrifwyd bod 5.1 miliwn achos o dwyll, a 3.8 miliwn o ddioddefwyr (oedolion) yng Nghymru a Lloegr yn ystod y 12 mis cyn cynnal y cyfweiliadau (Tabl 1); yn ychydig dros hanner y digwyddiadau hyn roedd y dioddefwyr wedi colli rhywfaint o arian yn y lle cyntaf, gan gynnwys y rheini a dderbyniodd iawndal llawn neu rhannol yn ddiweddarach

- yn yr achosion rheini lle cofnodwyd colled, derbyniodd dri-chwarter (78%) o'r dioddefwyr rhyw fath o iawndal ariannol, a derbyniodd dros eu hanner (62%) ad-daliad llawn
- yn ogystal â thwyll, amcangyfrifodd y prawf yn y maes fod 2.5 miliwn achos o droseddau yn ymwneud â Deddf Camddefnyddio Cyfrifiaduron, ac roedd y mwyaf cyffredin yn ymwneud â heintio cyfrifiadur y dioddefwr, neu ddyfais arall sy'n defnyddio'r rhyngwyd, â firws; roeddynt hefyd yn cynnwys achosion lle cafodd cyfrifon ebost neu gyfryngau cymdeithasol yr ymatebwr eu hacio

Tabl 1: Twyll a chamddefnyddio cyfrifiaduron – digwyddiadau a nifer y dioddefwyr

England and Wales		Adults aged 16 and over		
Grŵp Trosedd	Nifer y digwyddiadau (000au)	Cyfraddau digwyddiadau i bob 1,000 oedolyn	Nifer y dioddefwyr (000au)	Cyfradd y dioddefwyr i bob 1,000 oedolyn
Twyll	5,110	112	3,757	82
Twyll â cholled (yn cynnwys y rheini a ad-dalwyd)	2,648	58	2,079	46
Twyll heb golled	2,462	54	1,856	41
Camddefnyddio cyfrifiaduron	2,460	54	2,113	46
Mynediad heb awdurdod i wybodaeth bersonol (yn cynnwys hacio)	404	9	404	9
Firws cyfrifiadurol	2,057	45	1,741	38
Sylfaen heb ei bwysoli (n=nifer yr oedolion a gafodd eu cyfweld)	2,072			

1. Ffynhonnell: 'Crime Survey for England and Wales Field Trial', Y Swyddfa Ystadegau Gwladol
2. Prawf yn y maes a gynhaliwyd rhwng Mai ac Awst 2015

Fel rhan o'i bwletiau ystadegau troseddu chwarterol, roedd y data a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) rhwng Mehefin 2015 a Hydref 2015 yn nodi'r ffigurau a ganlyn mewn perthynas â gwahanol weithgareddau yn ymwneud â thwyll yn y gwahanol ardaloedd yng Ngogledd Cymru.

	Conwy	Ynys Môn	Gwynedd	Sir y Fflint	Sir Ddinbych	Wrecsam
Siopa ac ocsiynau arlein	19	0	31	57	9	Dim data
Twyll wrth wneud Ceisiadau (ac eithrio Morgeisi)	0	0	0	47	0	Dim data
Twyll yn y Diwydiant Bancio a Chredyd	0	11	0	35	0	Dim data
Sieciau, Cardiau Plastig a Chyfrifon Banc Arlein (dim PSP)	24	18	25	33	23	Dim data
Twyll Gwasanaeth Meddalwedd Cyfrifiaduron	26	22	29	0	22	Dim data
Twyll Taliadau ymlaen llaw Eraill	20	18	19	0	12	Dim data
Mathau eraill o dwyll (nad ydynt wedi'u cynnwys mewn manau eraill)	16	20	29	37	13	Dim data

Blaenoriaethau Awgrymedig:

- Partneriad i godi ymwybyddiaeth am dwyll dros y ffôn ac arlein.

Amcan 5: Mynd i'r afael ag anghydraddoldebau o ran Cynrychiolaeth a Llais

Thema Allweddol 5.1: Cyrff sy'n gwneud penderfyniadau yn dod yn fwy cynrychioliadol o'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu.	50
Thema Allweddol 5.2: Ymgynghoriad ac ymgysylltiad yn gwella trwy gryfhau'r cysylltiadau rhwng y Sector Cyhoeddus a grwpiau lleol a chenedlaethol sy'n cynrychioli pobl o'r holl grwpiau gwarchoddedig.	53

Thema Allweddol 5.1: Cyrff sy'n gwneud penderfyniadau yn dod yn fwy cynrychioliadol o'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu.

Gwybodaeth o'r Broses ymgysylltu:

Yn ôl y cyfranogwyr, mae'r amcan hwn yn parhau'n berthnasol ac mae angen parhau â'r gwaith o annog mwy o amrywiaeth ar gyrff sy'n gwneud penderfyniadau, gan ganolbwyntio ar annog pobl o grwpiau a dangynrychiolir i gymryd rhan. Trafodwyd yr angen i annog pob grŵp oedran a'r syniad y dylid mabwysiadu 'dyddiau cymryd yr awenau' pan gaiff pobl gyfle i gael blas ar y gwaith o wneud penderfyniadau mewn awdurdod lleol.

Roedd nifer o bobl o'r farn fod y cynnydd yn ystod y blynyddoedd diwethaf o ran cynrychiolaeth gwahanol grwpiau yn gymysg, a bod rhai grwpiau wedi gwneud camau mawr ymlaen ac eraill heb newid llawer.

Ein Hymchwil:

Mae adroddiad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol "A yw Cymru'n decach?" yn cynnwys her sy'n seiliedig ar dystiolaeth sy'n nodi angen i "Gynyddu mynediad at gyfiawnder ac annog cyfranogiad democrataidd".

Roedd canlyniadau arolwg o'r ymgeiswyr ar gyfer etholiadau llywodraeth leol diwethaf Cymru fel a ganlyn:

Rhyw

- roedd 32% o gynghorwyr etholedig yn fenywod o'u cymharu â 31% o ymgeiswyr anetholedig.
- Ymhlith cynghorwyr sir, roedd 28% yn fenywod (cynnydd o'r 22% yn 2004) ac roedd 72% yn ddynion.

Oed

- Roedd mwyafrif y cynghorwyr etholedig dros 60 oed – 57% o gynghorwyr sir a 61% o gynghorwyr cymunedol.
- Roedd 46% o'r ymgeiswyr anetholedig yr un oed.

Ethnigrwydd

- Roedd mwyafrif y cynghorwyr etholedig yn Wyn – 99.4%.
- Roedd 2.8% o'r ymgeiswyr anetholedig o gefndir lleiafrifoedd ethnig (Cymysg/grwpiau ethnig lluosog, Asiaidd/Asiaidd Prydeinig, Du/Affricanaidd, Eraill).

Crefydd

- Dywedodd 83% o'r sampl o gynghorwyr etholedig eu bod yn Gristnogion o'u cymharu â 70% o'r ymgeiswyr anetholedig.

Cyfeiriadedd Rhywiol

- Dyweddod 2% o gynghorwyr etholedig eu bod yn lesbiaid, yn bobl hoyw neu ddeurywiol (LHD) o'u cymharu â 5% o'r ymgeiswyr anetholedig.

Anabledd

- Roedd 14% o gynghorwyr etholedig yn ystyried eu bod yn anabl o'u cymharu â 15% o ymgeiswyr anetholedig.

Yn sgil cyhoeddi Adroddiad Grym Cymru: Merched mewn Bywyd Cyhoeddus, mae gennym dystiolaeth gadarn am y bwlch rhwng cyfranogiad dynion a merched i fywyd cyhoeddus ar draws amryw o themâu. Dengys tystiolaeth o'r adroddiad 'A yw Cymru'n Decach?' (2015) mai ychydig iawn o welliant a fu mewn cynrychiolaeth wleidyddol yn y pum mlynedd ddiwethaf, a bod merched, pobl anabl, pobl ifanc, lleiafrifoedd ethnig, lleiafrifoedd crefyddol a phobl Lesbiaidd, Hoyw a Thrawsrywiol yn parhau i fod heb gynrychiolaeth ddigonol ar bob lefel o wleidyddiaeth yng Nghymru.

Mwy o wybodaeth am yr awdurdodau lleol

Yng Ngogledd Cymru roedd cyfran y Cynghorwyr etholedig benywaidd (2012) fel a ganlyn:

	% Merched
Sir y Fflint	30%
Conwy	25%
Gwynedd	24%
Sir Ddinbych	23%
Wrecsam	15%
Ynys Môn	5%

Dim ond 9% (2 o blith 22) o arweinwyr yr awdurdodau lleol oedd yn fenywod¹¹

Parciau Cenedlaethol

	Merched	Merched %	Dynion	Dynion %
Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri	4	21%	14	79%

Comisiynydd Heddlu a Throsedd – Gogledd Cymru

	Merched	Merched %	Dynion	Dynion %
Comisiynydd Heddlu a Throsedd	0	0	1	100%
Cadeirydd cyn-awdurdod yr heddlu	0	0	1	100%
Aelodau o Banel yr Heddlu a Throsedd	3	25%	9	75%
Aelodau cyn-awdurdod yr heddlu	4	20%	16	80%

¹¹ Adroddiad Grym Cymru: Merched mewn Bywyd Cyhoeddus, 2013

Awdurdod Tân ac Achub

	Merched	Merched %	Dynion	Dynion %
Gogledd Cymru	6	21%	22	79%

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

	Merched	Merched %	Dynion	Dynion %
2012	8	38%	13	62%
2015	11	50%	11	50%

Yn anffodus, prin yw'r data a gaiff eu casglu'n rheolaidd yn ymwneud â nodweddion gwarchoddedig eraill. Fodd bynnag, awgryma tystiolaeth anecdotaidd y caiff pob un o'r grwpiau a ganlyn eu tangynrychioli ym mywyd cyhoeddus:

- Pobl o gefndiroedd duon a lleiafrifoedd ethnig
- Pobl Anabl
- Pobl Drawsrywiol
- Lesbiaid a Phobl Hoyw
- Pobl Ifanc

Blaenoriaethau a Awgrymir:

- Bod partneriaid yn parhau i gymryd camau i hybu cyfleoedd ar gyfer grwpiau gwarchoddedig sydd ar hyn o bryd wedi'u tangynrychioli ar gyfrif cyhoeddus i gymryd rhan mewn cyrff sy'n gwneud penderfyniadau.

Thema Allweddol 5.2: Ymgynghoriad ac ymgysylltiad yn gwella trwy gryfhau cysylltiadau rhwng y Sector Cyhoeddus a grwpiau lleol a chenedlaethol sy'n cynrychioli pobl o bob grŵp gwarchoddedig.

Gwybodaeth o'r Broses ymgysylltu:

Awgrymodd llawer o bobl yn y digwyddiad ymgynghori fod angen hyblygrwydd o ran amseru, lleoliadau a chanolfannau a ddefnyddir ar gyfer cyfarfodydd cyhoeddus a chyfarfodydd busnes cyrff cyhoeddus ac ati, er mwyn galluogi mwy o bobl i fynd i'r cyfarfodydd a chymryd rhan. Nodwyd bod diffyg cysylltiadau trafniadaeth hefyd yn rhwystr o ran mynediad, ynghyd â mynediad corfforol mewn mannau a gynlluniwyd yn wael ac a ddefnyddir i gynnal digwyddiadau ymgynghori ac ymgysylltu. Gall ffactorau eraill hefyd rwystro pobl rhag dod i ddigwyddiadau ymgynghori ac ymgysylltu a chymryd rhan, e.e. byw mewn ardal wledig, diffyg amser, cludiant, trefniadau gofal plant, cost, amser o'r gwaith ac ati. Pwysleisiwyd yr angen i ddarparu gwasanaethau cyfieithu a dehongli mewn digwyddiadau ymgynghori ac ymgysylltu, nid yn unig ar gyfer y Saesneg a'r Gymraeg ond i gynnwys BSL ac ieithoedd eraill.

Gall iaith arbenigol a *jargon* a ddefnyddir gan weithwyr proffesiynol hefyd fod yn rhwystr wrth gyfathrebu ac annog pobl i gymryd rhan. Nodwyd hefyd y dylai ymgynghori fod yn sgwrs ddwyffordd a dylid cynnwys cwsmeriaid a rhoi cyfle iddynt drafod eu materion eu hunain, yn hytrach na bod y sefydliad yn ymgynghori ar ei gynigion ei hun.

Ein Hymchwil:

Canfu'r adroddiad 'A yw Cymru'n decach?' (2015) mai ychydig iawn o gynnydd a fu o ran yr amrywiaeth o bobl sy'n cymryd rhan ym mywyd sifil, gwleidyddol a chyhoeddus ers cyhoeddi'r adroddiad cychwynnol 'Pa mor deg yw Cymru?' (2011). Nodwyd hefyd bod llai nag un ymhob pedwar yng Nghymru yn teimlo y gallant ddylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu hardal leol. Roedd pobl hŷn (75 oed a throsodd), pobl anabl a merched yn fwy tebygol o deimlo na allent ddylanwadu ar benderfyniadau o'u cymharu â rhai grwpiau eraill.

Mae amrediad o grwpiau o'r 3ydd Sector a defnyddwyr gwasanaeth yn cymryd rhan mewn amryw o ffyrdd i ddatblygu polisiau a chynlluniau'r sector cyhoeddus. Trefnwyd gweithgareddau ymgysylltu penodol i ddatblygu amcanion cydraddoldeb a Chynlluniau Cydraddoldeb Strategol ar draws Gogledd Cymru.

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 a Dyletswyddau Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn cynnig eglurder o ran ymgysylltu ac ymgynghori â'r cyhoedd, defnyddwyr gwasanaeth a rhwydweithiau a grwpiau lleol. Mae angen adolygu'r mecanweithiau hyn, yng Ngogledd Cymru, i ymestyn ystod y gwaith hwn, gwella a datblygu perthnasoedd ac osgoi dyblygu.

Blaenoriaethau Awgrymedig

- Partneriaid i barhau â'r gwaith presennol o ymgysylltu a chynnwys pobl sydd â nodweddion gwarchoddedig a dangos eu bod yn cydymffurfio â gofynion dyletswyddau'r sector cyhoeddus.
- Ceir tystiolaeth bod pobl yn fwy bodlon â'r mecanweithiau ymgysylltu
- Y strwythurau ymgysylltu ac ymgynghori rhanbarthol i barhau.

Amcan 6: Lleihau anghydraddoldebau o ran cael mynediad at wybodaeth, gwasanaethau, adeiladau a'r amgylchedd

Thema Allweddol 6.1: Gwella mynediad at wybodaeth a chyfathrebu a phrofiad y cwsmer, yn enwedig i bobl sydd wedi colli defnydd o'u synhwyrâu a'r rheini nad yw'r Gymraeg na'r Saesneg yn iaith gyntaf iddynt.	55
Thema Allweddol 6.2: Gwella mynediad corfforol at wasanaethau, cludiant, yr amgylchedd adeiledig a mannau agored.	57

Thema Allweddol 6.1: Gwella mynediad at wybodaeth a chyfathrebu a phrofiad y cwsmer, yn enwedig i bobl sydd wedi colli defnydd o'u synhwyrau a'r rheini nad yw'r Gymraeg na'r Saesneg yn iaith gyntaf iddynt.

Gwybodaeth o'r Broses ymgysylltu:

Fe wnaeth y cyfranogwyr dynnu sylw at y ffaith y defnyddir Un Man Cyswllt yn aml o fewn sefydliadau'r sector cyhoeddus a nodwyd pa mor bwysig oedd sicrhau bod yr Un Man Cyswllt yn hygyrch a bod unigolion yn gwybod beth oedd yr amseroedd agor a lleoliad yr Un Man Cyswllt. Awgrymwyd y gellid gosod y Mannau Cyswllt hyn mewn llyfrgelloedd. Mae sawl sefydliad bellach yn defnyddio'r rhyngrwyd fel prif lyfrgell ar gyfer gwybodaeth, fodd bynnag, nid yw rhoi mynediad i wybodaeth drwy wefannau yn addas i bawb a gall arwain at allgáu digidol. Darperir mynediad at y rhyngrwyd i'r cyhoedd mewn lleoliadau megis llyfrgelloedd, fodd bynnag, mae rhai pobl yn pryderu am gyfrinachedd a'r ffaith y gellir blocio rhai gwefannau gan gyfyngu ar fynediad pobl at wybodaeth bwysig. Mae gwybodaeth am y rhyngrwyd a hyder i'w defnyddio yn amrywio rhwng gwahanol grwpiau o bobl, e.e. rhai Pobl Hŷn, pobl â lefelau llythrennedd isel, pobl â sgilau iaith Gymraeg neu Saesneg cyfyngedig, a phobl sydd wedi colli defnydd o'u synhwyrau, ac felly mae hyn ynddo'i hyn yn rhwystr i bawb gael mynediad at wybodaeth. Fe wnaeth y cyfranogwyr hefyd dynnu sylw at y ffaith nad oes gan bobl sydd ar incwm isel fynediad at gyfrifiadur o bosibl, ac roedd sicrhau mynediad at wybodaeth am Ddiwygiadau Lles yn destun pryder mawr. Mae'n bosibl na fydd gan y bobl sydd fwyaf agored i niwed fynediad at yr wybodaeth sydd ei hangen arnynt e.e. pobl ag anabledd, pobl mewn ardaloedd gwledig, pobl hŷn a phobl ifanc.

Nodwyd hefyd nad yw staff bob amser yn deall y rhwystrau wrth gael mynediad at wybodaeth e.e. pobl fyddar. Tynnwyd sylw at iaith a chyflwyniad dogfennau hefyd a phwysigrwydd denfyddio Saesneg a Chymraeg Clir ar ddogfennau cyhoeddus, gan sicrhau bod y dogfennau ar gael yn ddwyieithog. Dylid nodi sut y gellir gofyn am fformatau ac ieithoedd eraill ar dudalen flaen dogfennau, fel bod modd i bobl ddod o hyd i'r wybodaeth yn y fformat sydd ei angen arnynt yn glir a hawdd. Dylai BSL fod ar gael fel mater o drefn, yn ogystal â fformatau hawdd ei darllen, ac awgrymwyd y byddai'n fuddiol petai clipiau fideo BSL ar wefannau i esbonio gwybodaeth.

Ein Hymchwil:

Mae nifer o rwystrau wrth gael mynediad yn gallu effeithio ar wahanol grwpiau o bobl am un rheswm neu'i gilydd. Mae pobl hŷn yn fwy tebygol o golli eu clyw, colli eu golwg neu gael problemau symudedd a gall y rhain effeithio ar fynediad os na chymerir camau i ddiwallu'r anghenion hyn. Er enghraifft, mae 534,000 o bobl yng Nghymru wedi colli eu clyw ac mae 64% o'r rhain yn y grŵp oedran ymddeol. Mae 44,500 wedi colli eu clyw yn ddifrifol neu'n drwm iawn

ac mae 84% o'r rhain yn y grŵp oedran ymddeol.¹² Mae cyfran fwy o bobl hŷn yn byw yng Ngogledd Cymru nag mewn rhannau eraill o Gymru a'r Deyrnas Unedig felly mae deall yr anghenion a sicrhau mynediad i'r rheini sydd wedi colli eu clyw, colli eu golwg neu sydd â phroblemau symudedd yn flaenoriaeth.

Yn ôl Cyfrifiad 2011, dywedodd canran fach (22,000) o breswylwyr arferol Cymru a Lloegr mai iaith arwyddion oedd eu prif iaith; o blith y preswylwyr arferol hyn, roedd 70% (15,000) yn defnyddio iaith Arwyddion Prydain (BSL)¹³ a BSL yw prif iaith neu ddewis iaith tua 3,000 o bobl yng Nghymru.¹⁴ Hefyd, mae llawer o bobl yn defnyddio Makaton.

Dengys ymchwil gan yr RNIB fod 24,120 o bobl yn byw gyda nam ar eu golwg yng Ngogledd Cymru yn 2011 a rhagwelir y bydd 29,200 erbyn 2020. Yn 2014 roedd 1332 o bobl wedi'u cofrestru yn ddall. Gall print bras, sain a braille gynorthwyo'r grŵp hwn i gael mynediad at wasanaethau.

Gall iaith hefyd fod yn rhwystr i rai sy'n siarad iaith arall, yn hytrach na Chymraeg, Saesneg neu BSL. Yn ôl Cyfrifiad 2011, yng Nghymru a Lloegr roedd 4.2 miliwn (7.7%) o bobl yn siarad iaith arall fel eu prif iaith: Pwyleg oedd y brif iaith mwyaf cyffredin arall a dywedodd 546,000 o bobl mai hon oedd eu prif iaith. Datgelodd y Cyfrifiad hefyd fod 1.7% o boblogaeth Cymru a Lloegr yn ystyried nad oeddynt yn rhugl yn y Saesneg a'r grŵp hwn a gofnododd y cyfraddau cyflogaeth isaf, sef 48.3%. Ar draws gwahanol rannau o Ogledd Cymru mae'r brif iaith fwyaf cyffredin arall, yn hytrach na Saesneg neu Gymraeg, yn amrywio ond:

Blaenoriaethau Awgrymedig

- Partneriaid i gymryd camau i nodi a mynd i'r afael â'r rhwystrau i gyfathrebu
- Partneriaid i gymryd camau i wella mynediad at wybodaeth

¹² I'w ychwanegu

¹³ I'w ychwanegu

¹⁴ I'w ychwanegu

Thema Allweddol 6.2: Gwella mynediad corfforol at wasanaethau, cludiant, yr amgylchedd adeiledig a mannau agored.

Gwybodaeth o'r Broses ymgysylltu:

Fe wnaeth y cyfranogwyr dynnu sylw at y ffaith fod mynediad at wasanaethau yn parhau i fod yn broblem mawr ac ategir hyn drosodd a throsodd mewn digwyddiadau ymgysylltu gyda grwpiau gwahanol. Wrth gynllunio a datblygu gwasanaethau cyhoeddus, fe wnaeth y cyfranogwyr dynnu sylw at bwysigrwydd cynnwys cymunedau er mwyn gweithredu mewn dull mwy cydweithredol wrth gynllunio a chyflenwi gwasanaethau cyhoeddus addas. Awgrymodd yr adborth nad yw staff bob amser yn ymwybodol o sut y gellir ymgysylltu ac ateb anghenion yr ymgynhoreion ac nad ydynt yn ymwybodol weithiau o effaith, er enghraifft, byw mewn ardal wledig mewn perthynas â chael mynediad at wasanaethau o safbwynt cost ac argaeledd cludiant cyhoeddus.

Cafwyd trafodaeth fanwl ar welliannau i wasanaethau, gan gynnwys mynediad at wasanaethau megis toiledau cyhoeddus, a gwelliannau i balmentydd er mwyn gwella mynediad.

Ein Hymchwil:

Dangosodd adolygiad beirniadol cynhwysfawr (Llywodraeth Cymru, 2011) o gynhwysiant ac allgáu digidol fod pobl hŷn, pobl â statws sosio-economaidd is, unigolion ag anableddau cyfyngol a phobl â chyflawniad addysgol is, yn fwy tebygol o gael eu hymddieithrio'n ddigidol. Cynhaliodd Anabledd Cymru brosiect o'r enw Bywydau Digidol er mwyn cefnogi cynhwysiant digidol i bobl anabl ar draws Cymru. Roedd y prosiect yn cynnwys hwyluso a darparu gweithdai i godi ymwybyddiaeth am dechnolegau cynorthwyol er mwyn galluogi pobl i fynd arlein a gwella hyder a gwybodaeth pobl anabl mewn perthynas â TGCh.

Y cymunedau lleiaf yng Nghymru, yn enwedig y rhai mwyaf anghysbell, sydd bellaf o'r gwasanaethau ac felly gall mynediad at wasanaethau fod yn anodd i'r bobl hyn.

Yn yr adroddiad 'A yw Cymru'n Decach?' (2015), tynnwyd sylw at y ffaith fod mynediad at gludiant cyhoeddus a chymunedol yn cael eu heffeithio gan ddiffyg ariannu. Yng Nghymru, mae 179 o lwybrau bysiau wedi eu torri, addasu neu dynnu'n ôl er 2010 (Ymgyrch ar gyfer Trafnidiaeth Gwell, 2014). Mewn perthynas â mynediad at dai, mae cyfran y stoc tai cymdeithasol sy'n bodloni Safon Ansawdd Tai Cymru wedi cynyddu o 60% ym Mawrth 2013 i 72% ym Mawrth 2015 (Llywodraeth Cymru, 2015).

Mewn perthynas â gwasanaethau diogelwch, yn ystod y flwyddyn 2014-15 mae'r Gwasanaeth Tân wedi rhagori ar ei darged i ddarparu gwiriadau diogelwch tân mewn cartrefi yng Ngogledd Cymru a chwblhawyd 36.7% o wiriadau diogelwch tân yn y cartref yn dilyn atgyfeiriad gan sefydliad partner. Yn ystod y flwyddyn ymatebodd y Gwasanaeth Tân i 6,093 digwyddiad, sydd yn llai na'r nifer yn ystod y flwyddyn flaenorol ac yn parhau â'r duedd ar i lawr. Bu gostyngiad o 24.6% yn nifer y digwyddiadau gwasanaeth arbennig o'u cymharu â 2013/14, a gostyngiad o 37.5% o'i gymharu â'r cyfartaledd dros y 3 blynedd blaenorol. Bu cynnydd o 3.7% yn nifer y galwadau ffug o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, ond roedd hyn yn ostyngiad o 2.7% o'i

gymharu â'r cyfartaledd dros y 3 blynedd diwethaf. Bu gostyngiad o 7.1% yng nghyfanswm y digwyddiadau tân (172 yn llai o danau) o'i gymharu â'r flwyddyn ddiwethaf, a gostgyniad o 15.1% o'i gymharu â'r cyfartaledd dros y 3 blynedd blaenorol.

Blaenoriaethau a Awgrymir:

- Ceir tystiolaeth bod partneriaid wedi cymryd camau i nodi a lleihau'r rhwystrau o ran mynediad at wasanaethau, cludiant, yr amgylchedd adeiledig a mannau agored.

